YMCHWIL GYMDEITHASOL RHIF:
31/2017
DYDDIAD CYHOEDDI:
27/06/2017

# Modelu'r angen am gyngor ar faterion lles cymdeithasol

© Hawlfraint y Goron
ISBN Digidol 978-1-4734-9779-5

# Modelu'r angen am gyngor ar faterion lles cymdeithasol

Wavehill Ltd mewn partneriaeth â'r Civic Research Initiative

Gyda diolch i

Ruth Tweedale, Prifysgol Roehampton

Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol am wneud yr ymarfer dilysu yn bosibl drwy gynnig mynediad cynnar at eu set ddata

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn farn Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:
Semele Mylona
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ebost: semele.mylona@cymru.gsi.gov.uk

## Tabl cynnwys


Rhestr tablau .......... 2
Rhestr ffigyrau .......... 2
Geirfa .......... 3
1. Cefndir .......... 4
2. Methodoleg .......... 14
3. Canfyddiadau .......... 31
4. Casgliadau .......... 42
Atodiad 1: Rhestr Cyfeiriadau .......... 45

**Rhestr tablau**

Tabl 2.1: Canran yr ymatebwyr a oedd wedi cael gwahanol fathau o broblemau traddodadwy ledled Cymru a Lloegr, fel y nodir yn Adroddiad Cam 1 Arolwg Panel Cyfiawnder Cymdeithasol a Sifil Cymru a Lloegr....17

Tabl 2.2: Sampl mynychder problemau traddodadwy yn ymwneud â dyled yng Nghymru a Lloegr ....18

Tabl 2.3: Sampl mynychder problemau traddodadwy yn ymwneud â budd-daliadau yng Nghymru a Lloegr....19

Tabl 2.4: Sampl mynychder problemau traddodadwy yn ymwneud â thai a chymdogion yng Nghymru a Lloegr....19

Tabl 2.5: Sampl mynychder problemau traddodadwy yn ymwneud â chyflogaeth yng Nghymru a Lloegr....20

Tabl 2.6: Sampl mynychder problemau traddodadwy yn ymwneud â defnyddwyr/cwsmeriaid a chyllid yng Nghymru a Lloegr ....20

Tabl 2.7: Sampl mynychder problemau traddodadwy yn ymwneud â gwahaniaethu yng Nghymru a Lloegr....21

Tabl 3.1: Nifer yr achosion amcangyfrifedig o broblemau traddodadwy am bob 100 o bobl mewn cyfnod o 18 mis, yn ôl awdurdod lleol ....32

Tabl 3.2: Nifer amcangyfrifedig y problemau traddodadwy mewn cyfnod o 18 mis, yn ôl awdurdod lleol ....33

Tabl 3.3: Nifer amcangyfrifedig y problemau traddodadwy a'r nifer yr amcangyfrifir sy'n cynnwys gwahaniaethu mewn cyfnod o 18 mis....35

Tabl 3.4: Yr angen amcangyfrifedig am gyngor arbenigol ar broblemau traddodadwy mewn cyfnod o 18 mis, yn ôl awdurdod lleol....40

Tabl 3.5: Yr angen amcangyfrifedig am gyngor ataliol ar broblemau traddodadwy mewn cyfnod o 18 mis, yn ôl awdurdod lleol....41

**Rhestr ffigyrau**

Ffigwr 2.1: Cydbwysedd cymharol y chwe chategori o broblemau traddodadwy yn Lloegr, yn seiliedig ar ddata sampl o'r Arolwg Panel Cyfiawnder Cymdeithasol a Sifil (Cam 1, 2010)....22

Ffigwr 2.3: Diagram Venn yn dangos y cyfansoddiad a'r berthynas rhwng y ddwy set ddata a ddefnyddir yn y fethodoleg ....26

Ffigwr 3.1: Yr angen amcangyfrifedig am wahanol fathau o gyngor ar broblemau traddodadwy yng Nghymru mewn cyfnod o 18 mis ....38

**Geirfa**

| **Acronym/geiriau allweddol** | **Diffiniad / cyfieithiad** |
|---|---|
| CSJPS | Arolwg Panel Cyfiawnder Cymdeithasol a Sifil / *Civil and Social Justice Panel Survey* |
| Cyngor ar Bopeth | Citizens Advice |
| NAN | Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol / *National Advice Network* |
| ONS | Y Swyddfa Ystadegol Gwladol / *Office for National Statistics* |
| atchweliad llinol | *linear regression* |
| cyfernodau atchweliad | *regression coefficients* |
| gorddyled | *over-indebted* |
| gwerth arwyddocâd | *significance value* |
| newidyn | *variable* |
| problemau traddodadwy | *justiciable problems* |

# 1. Cefndir

1.1 Gwnaed yr astudiaeth hon ar ran Llywodraeth Cymru a'r Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol (NAN). Mae'r Rhwydwaith yn rhoi arweiniad i Lywodraeth Cymru ar y gofynion polisi i wella mynediad at wasanaethau gwybodaeth a chyngor o safon, mewn perthynas â'r gyfraith ar les cymdeithasol.

1.2 Mae dogfennau polisi Llywodraeth Cymru yn pwysleisio'r rôl sydd gan wasanaethau cynghori cryf, wedi'u hintegreiddio'n dda, yn y maes lles a ffyniant ac yn y pen draw wrth adeiladu cymunedau gwydn (Llywodraeth Cymru 2016a, Llywodraeth Cymru 2015a, Llywodraeth Cymru 2012). Yn ogystal â ffyniant a lles cyffredinol, mae Llywodraeth Cymru hefyd o'r farn y gall cyngor o safon fod yn arf effeithiol yn erbyn anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol, yn enwedig i grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb (Llywodraeth Cymru 2016b).

1.3 Cyd-destun ehangach yr astudiaeth yw'r dirywiad economaidd a ddilynodd y cwymp yn 2008 a'r tynhau ar gyllidebau wedi hynny gan lywodraeth y Deyrnas Unedig, yn enwedig drwy'r rhaglen Diwygio Lles. Yn 2013, cyhoeddodd Canolfan Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol Ranbarthol Prifysgol Sheffield Hallam bapur a oedd yn amcangyfrif y byddai'r diwygiadau yn torri gwariant bron i £19bn y flwyddyn erbyn yr adeg y byddant yn dod i rym yn llawn (Beatty, C. a Fothergill, S. 2013).

1.4 Mae effaith y diwygiadau lles yn amrywio'n sylweddol o le i le, yn bennaf oherwydd bod hawlwyr budd-daliadau wedi'u taenu'n anghyson ledled y Deyrnas Unedig. Amcangyfrifodd ymchwil mai Cymru fyddai'r drydedd 'rhanbarth' i'w tharo waethaf ym Mhrydain Fawr o ran effaith gyffredinol y diwygiadau lles erbyn 2014/15, gyda cholled o £550 y flwyddyn i bob oedolyn o oedran gweithio o'i gymharu â cholled o £470 ledled Prydain Fawr (Beatty, C. a Fothergill, S. 2013). Yn ogystal, ym mis Ionawr 2015 dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru fod y diwygiadau yn cael mwy o effaith yng Nghymru nag yn Lloegr a'r Alban. Roedd hyn yn seiliedig ar ganfyddiadau Arolwg Tenantiaid a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2014, lle adroddodd 51 y cant o denantiaid tai cymdeithasol ledled Cymru gynnydd mewn dyled ers y diwygiadau lles (Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2015). Mae'r diwygiadau hefyd yn cynnwys toriadau i Gymorth Cyfreithiol (o fis Ebrill 2013). Oherwydd yr amgylchiadau hyn, mae'r broblem darpariaeth cyngor wedi gwaethygu yn y blynyddoedd diwethaf.

1.5 Er nad yw Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol yn gyffredinol wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru, eto hi sy'n gyfrifol am ariannu darparu cyngor a chymorth i helpu pobl i gael gafael ar eu hawl lles cymdeithasol. Cynhaliwyd adolygiad (Llywodraeth Cymru 2013) gan Lywodraeth Cymru a oedd â'r nod o ddatblygu mwy o gydweithredu a dull mwy cydgysylltiedig o ddarparu gwasanaethau cynghori yn lleol ac yn genedlaethol ymhlith yr holl randdeiliaid, gan gynnwys darparwyr, cyllidwyr eraill, cynllunwyr a llunwyr polisi. Yn dilyn argymhellion allweddol yr adolygiad hwn, sefydlwyd y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol i ddwyn y rhanddeiliaid hyn at ei gilydd i drafod y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau cynghori yn y dyfodol.

1.6 Roedd yr adolygiad hefyd yn cynnig datblygu fframwaith safonau ar gyfer cyngor a gwybodaeth drwy'r Rhwydwaith er mwyn datblygu gwell cysondeb wrth ddarparu a monitro gwasanaethau. Mewn ymateb, mae Llywodraeth Cymru yn ddiweddar wedi datblygu Fframwaith Sicrhau Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor ar gyfer Cymru (Llywodraeth Cymru 2016c) (i'w weithredu o 2017/18 ymlaen) i ddarparu cynllun achredu ar gyfer Cymru, gan felly gynnig marc ansawdd adnabyddadwy, wedi'i gadarnhau gan archwiliad annibynnol. Mae hyn yn bwysig oherwydd fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyllido ond y darparwyr gwybodaeth a chyngor hynny y mae'r cynllun hwn yn sicrhau eu hansawdd, a bydd yn annog sefydliadau partner i wneud yr un peth.

### Y rhesymeg dros gynnal yr ymchwil

1.7 Awgrymwyd yr ymchwil hwn gan y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol ac mae'n rhan o weledigaeth i ddatblygu un dull strategol o gynnig cyngor Lles Cymdeithasol. Erbyn 2026, y gobaith yw y bydd yna rwydwaith o ddarparwyr gwybodaeth a chyngor y mae eu hansawdd wedi'i sicrhau, ac sy'n gallu cynnig ystod o wasanaethau trwy gyllid cynaliadwy wedi'i gydlynu. Yn bwysig, cynghorodd y Rhwydwaith y dylai'r dull hwn fod yn seiliedig ar asesiad cadarn o angen, gan y byddai hynny'n helpu i lywio'r broses o ddyrannu cyllid i wasanaethau cynghori.

### Nodau ac amcanion

1.8 Nod y gwaith ymchwil hwn yw amcangyfrif lefel yr angen yn lleol am gymorth cyffredinol neu gymorth arbenigol ar chwe phwnc lles cymdeithasol. Mae'n bwysig fod yr amcangyfrifon yn annibynnol ar y ddarpariaeth cynghori bresennol ac yn cynnwys anghenion cudd ac anghenion sydd wedi'u mynegi.

1.9 Dyma amcanion yr astudiaeth hon:

a) Cael amcangyfrif meintiol o'r angen am gyngor yn y chwe chategori lles cymdeithasol isod ym mhob un o'r 22 ardal awdurdod lleol.

Mae'r categorïau lles cymdeithasol fel a ganlyn:

i. Budd-daliadau Lles
ii. Dyled
iii. Defnyddwyr/cwsmeriaid a Chyllid (gan gynnwys cyngor ariannol)
iv. Tai a Chymdogion
v. Cyflogaeth
vi. Gwahaniaethu/rhagfarn

b) Dadgyfuno'r amcangyfrifon ar lefel awdurdod lleol yn ôl tri math o gyngor y gellir ei roi:

i. ar lefel gwybodaeth (ar bolisïau, hawliau ac arferion)
ii. cymorth cyffredinol (ar amgylchiadau penodol cleientiaid, a all gynnwys rhywfaint o waith achos)
iii. cymorth arbenigol yn ôl categori (pan fo'r cyngor a roddir ar lefel sydd angen gwybodaeth fanwl am faes cyfreithiol)

c) Dadgyfuno'r amcangyfrifon ymhellach o ran y cymorth cyffredinol a'r cyngor arbenigol, os yw'n ymarferol, er mwyn amcangyfrif cydbwysedd yr angen am y canlynol:

i. cyngor ataliol
ii. cyngor adweithiol

**Ymchwil perthnasol blaenorol**

*Amcangyfrifon o broblemau lles cymdeithasol*

1.10 Yn ôl Arolwg Problem Gyfreithiol a'i Datrysiad 2014-2015, roedd bron i draean yr ymatebwyr (32 y cant) wedi cael un neu fwy o broblemau cyfreithiol teuluol, sifil neu weinyddol yn y 18 mis diwethaf (Franklyn, F., Budd, T., Verrill, R. ac Willoughby, M. 2017). Mae'r cyfanswm hwn yn cynnwys problemau ag amodau byw (ymddygiad gwrthgymdeithasol cymdogion, 8 y cant; llety rhent, 5 y cant; prynu neu'n berchen ar eiddo, 2 y cant), arian (dyled bersonol, 5 y cant, problemau ariannol eraill, 7 y cant),

prynu nwyddau neu wasanaethau (8 y cant), cyflogaeth (3 y cant), a budd-daliadau'r wladwriaeth (3 y cant).

1.11 Roedd astudiaethau blaenorol wedi adrodd maint tebyg i hyn, gyda 33 y cant o ymatebwyr yn nodi problemau mewn astudiaeth yn 2004 (Pleasence, P. 2006), 36 y cant mewn arolwg a gynhaliwyd rhwng 2006 a 2009 (Pleasence, P., Balmer, N Patel, A. a Denvir, C. 2010), a 33 y cant mewn arolwg a gynhaliwyd yn 2015 (Pleasence, P., Balmer, N., Patel, A., Cleary, A., Huskinson, T. a Cotton, T. 2011). Mae'r ffigyrau ar gyfer mathau penodol o broblemau yn dueddol o amrywio mwy rhwng yr astudiaethau, a hynny'n rhannol yn dibynnu ar sut y mae'r ymchwilwyr wedi categoreiddio problemau.

1.12 Mae'r corff hwn o ymchwil hefyd yn helpu i egluro sut a pham y mae problemau traddodadwy yn gallu digwydd mewn grwpiau sydd â nodweddion penodol neu mewn hinsoddau economaidd neu bolisi penodol. Caiff y dystiolaeth hon ei hadolygu isod mewn dwy ran, sef: ffactorau ar 'lefel micro' a ffactorau ar 'lefel macro'. Mae'r ffactorau ar 'lefel micro' yn nodweddion demograffig, cymdeithasol, ymddygiadol ac economaidd i unigolion neu gartrefi sy'n gysylltiedig ag amrywiol lefelau risg o ddioddef problem lles cymdeithasol. Mae'r ffactorau ar 'lefel macro' yn dueddiadau economaidd, technolegol, gwleidyddol, hanesyddol a'r farchnad sydd hefyd yn gysylltiedig ag achosion o broblemau traddodadwy ond eu bod yn gweithredu ar lefel uwch na'r unigolyn neu'r cartref, naill ai ar raddfa leol, rhanbarthol, cenedlaethol neu fyd-eang. Sylwer nad oes yr un o'r astudiaethau ystadegol a adolygwyd wedi dangos achosiaeth rhwng problemau lles cymdeithasol a ffactorau penodol ar lefel micro a macro, gan yn hytrach ddangos cysylltiad yn unig; a gallai'r cysylltiad fod â nifer o wahanol esboniadau.

*Ffactorau sy'n gysylltiedig â phroblemau lles cymdeithasol: ffactorau ar lefel micro*

1.13 Ymddengys bod oedran yn ffactor perthnasol o ran problemau penodol defnyddwyr/cwsmeriaid – mae pobl rhwng 25 a 55 oed i'w gweld yn cael mwy o broblemau gyda nwyddau a gwasanaethau diffygiol nag y mae'r ddau grŵp oedran iau a hŷn (Genn, H. & Paterson, A. 2001). Mae ymchwil arall (Carole Miller Research 1997) yn ategu'r canfyddiad hwn ac yn mynd ymlaen i awgrymu mai gwasanaeth cwsmeriaid anfoddhaol sy'n cael ei nodi amlaf fel problem gan bobl dros 55 oed. Fodd bynnag, y grwpiau oedran iau sy'n amlygu mwy o broblemau gydag arian yn gyffredinol (Carole Miller Research 2007), gydag adroddiad gan y Gwasanaeth

Cynghori Ariannol (IFF 2012) yn datgan bod gan y boblogaeth sydd â gorddyled broffil iau na chyfartaledd y Deyrnas Unedig.

1.14 Mae problemau cyflogaeth hefyd yn tueddu i ddigwydd yn amlach ymysg yr ifanc (Pleasence, P. 2006), er bod rhyw awgrym fod gweithlu sy'n heneiddio yn golygu bod rhai mathau o broblemau cyflogaeth (yn ymwneud, er enghraifft, â chyflyrau iechyd) yn fwyfwy cyffredin ymhlith grwpiau hŷn (Cyngor ar Bopeth 2016a). Pobl ifanc sy'n dioddef yn anghymesur o broblemau sy'n gysylltiedig â thai rhent (Genn, H. & Paterson, A. 2001, Franklyn, F., Budd, T., Verrill, R. ac Willoughby, M. 2017), tra bo mathau eraill o broblemau tai (e.e. rhai sy'n gysylltiedig â bod yn berchen ar gartref) yn digwydd yn amlach ymhlith grwpiau hŷn (Baker, B & Barrow, S. 2006), er nad o reidrwydd y grwpiau hynaf (Genn, H. & Paterson, A. 2001).

1.15 Mae tystiolaeth arbennig o gryf fod pobl sydd ag anabledd neu salwch hirdymor yn fwy tebygol o ddioddef amrywiaeth o broblemau, gan gynnwys gyda dyled, budd-daliadau lles, tai, ac ymddygiad gwrthgymdeithasol (Baker, B & Barrow, S. 2006, IFF 2012, Franklyn, F., Budd, T., Verrill, R. ac Willoughby, M. 2017, Franklyn, F., Budd, T., Verrill, R. ac Willoughby, M. 2017), yn ogystal ag wynebu mwy o rwystrau i waith (ac ynddo) (Cyngor ar Bopeth 2016a).

1.16 Parhau i fod yn amlwg y mae rhai problemau cyflogaeth hirsefydlog i fenywod, yn enwedig rhai sy'n gysylltiedig â chyfnod mamolaeth, a Chyngor ar Bopeth hyd yn oed yn cofnodi cynnydd diweddar yn yr adrodd am broblemau o'r fath (Cyngor ar Bopeth 2016b). Ymddengys fod cael plant yn cynyddu'r risg o orddyled (IFF 2012), er bod problemau gyda nwyddau a gwasanaethau yn fwy tebygol o gael eu hadrodd gan bobl heb blant (Baker, B & Barrow, S. 2006). Gwyddys fod unig rieni yn fwy tebygol o ddioddef casgliad o broblemau yn ymwneud ag arian, llety, cymdogion, a budd-daliadau'r wladwriaeth (Franklyn, F., Budd, T., Verrill, R. ac Willoughby, M. 2017).

1.17 Mae problemau cyflogaeth a rhentu yn gysylltiedig â'i gilydd (Baker, B & Barrow, S. 2006), ac mae'r problemau hyn yn ymwneud â llety rhent yn llawer mwy cyffredin i bobl sy'n byw mewn ardaloedd trefol nag mewn ardaloedd gwledig (Genn, H. & Paterson, A. 2001). Gellid disgwyl bod statws cyflogaeth yn pennu'r mathau o broblemau cyflogaeth y mae pobl yn eu hwynebu (mae problemau a geir yn y gwaith yn wahanol i rwystrau rhag mynd i waith), gyda phobl sydd allan o waith hefyd yn fwy tebygol o gael problemau yn ymwneud â budd-daliadau, dyledion a chymdogion (Baker, B & Barrow, S. 2006; Franklyn, F., Budd, T., Verrill, R. ac Willoughby, M. 2017).

1.18 Prin yw'r dystiolaeth ystadegol ar gyfer gwahanol grwpiau ethnig, cenedlaethol neu grefyddol, gan nad yw maint samplau'r arolygon fel arfer yn caniatáu ar gyfer y math hwn o ddadgyfuno, ond mae awgrym cryf gan sefydliadau'r rheng flaen y dylid ystyried mewnfudwyr yn grŵp risg uchel, yn enwedig mewn perthynas â phroblemau cyflogaeth (Cyngor ar Bopeth 2004a).

1.19 Gwyddys fod gweithwyr asiantaeth dros dro ar drugaredd 'arferion amheus' yn y gwaith (Cyngor ar Bopeth 2016c). Mae pobl sydd â sawl swydd neu ar gontractau sero awr yn dioddef amrywiaeth o broblemau (o gael budd-daliadau i gyllidebu (Cyngor ar Bopeth 2016d)) ac maent hefyd yn fwy tebygol o fod mewn sectorau cyflog isel a heb undeb, a all waethygu problemau (Cyngor ar Bopeth 2004b). Mae'r hunan-gyflogedig yn arbennig mewn perygl o broblemau dyled (gan gynnwys problemau â morgeisi) ac maent yn llai tebygol o fod yn cynilo i bensiynau na'r rheiny mewn cyflogaeth, a all arwain at broblemau arian yn ddiweddarach mewn bywyd (Cyngor ar Bopeth 2016e).

1.20 Ymddengys fod llawer o broblemau traddodadwy yn gysylltiedig â lefelau cyfoeth, gan y cofnodir mwy o duedd i gael problemau lles cymdeithasol mewn ardaloedd llai cefnog (Palmer a Monagham 2001). Mae'n hysbys fod problemau â budd-daliadau lles yn gysylltiedig ag amddifadedd (Baker, B & Barrow, S. 2006) a bod aelwydydd incwm uchel wedi'u tangynrychioli yn y boblogaeth sydd â gorddyled (IFF 2012; Franklyn, F., Budd, T., Verrill, R. ac Willoughby, M. 2017). Mae anghydfod â landlord a chymdogion hefyd yn fwy cyffredin ymhlith y rhai ar incwm isel iawn (Carole Miller Research 1997; Franklyn, F., Budd, T., Verrill, R. ac Willoughby, M. 2017) er y credir erbyn hyn fod cyfran gynyddol o aelwydydd gymharol gyfoethog yn byw mewn llety rhent o ansawdd gwael (Cyngor ar Bopeth / New Policy Institute 2015).

1.21 Fodd bynnag, ymddengys fod rhai problemau defnyddwyr/cwsmeriaid yn fwy cyffredin ymhlith grwpiau cymdeithasol-economaidd uwch (Genn, H. & Paterson, A. 2001; Franklyn, F., Budd, T., Verrill, R. ac Willoughby, M. 2017), gyda phobl yn y grwpiau incwm isaf yn llai tebygol o adrodd am broblemau gyda nwyddau diffygiol neu wasanaeth anfoddhaol (Baker, B & Barrow, S. 2006). Efallai fod rhai astudiaethau, yn groes i reddf, yn dangos bod pobl heb unrhyw gymwysterau addysgol o gwbl yn llai tebygol o ddioddef (neu o leiaf adrodd amdanynt mewn arolygon) sawl math o broblem (Franklyn, F., Budd, T., Verrill, R. ac Willoughby, M. 2017).

1.22 O ofyn iddynt yn uniongyrchol, mae pobl sydd wedi cael problemau lles cymdeithasol yn tueddu i ddyfynnu rhesymau personol neu resymau yn ymwneud â'u sefyllfa yn ffactorau uniongyrchol sydd wedi achosi'r problemau. Mae'r rhain yn cynnwys colli incwm (neu incwm afreolaidd); salwch, straen ac anabledd; problemau alcohol neu gyffuriau; symud cartref; perthynas â phartner yn chwalu; trais corfforol; ac anwybodaeth am hawliau (Pleasence, P., Balmer, N.J., Patel, A., Cleary, A., Huskinson, T. a Cotton, T. (2011).

*Ffactorau sy'n gysylltiedig â phroblemau lles cymdeithasol: ffactorau ar lefel macro*

1.23 Mae amodau byw gwael a thriniaeth afresymol gan landlordiaid wedi cael eu priodoli i brinder llety a rheoleiddio gwan yn y farchnad rentu (Cyngor ar Bopeth / New Policy Institute 2015), tra bod cyfraddau llog hefyd yn gallu cael effaith uniongyrchol ar y farchnad dai, gan arwain at adfeddiannu a chreu problemau i berchnogion tai a rhentwyr preifat fel ei gilydd (Pippa Lane / Cyngor ar Bopeth 2015).

1.24 Mae'r farchnad swyddi, cyflogau, ffyniant diwydiannau penodol, benthyciadau anwarantedig a chost cyfleustodau a thanwydd oll wedi'u nodi yn ffactorau sylfaen sy'n gallu dylanwadu ar y gogwyddo at broblemau (Cyngor ar Bopeth 2014a), yn enwedig gan eu bod yn tueddu i weithredu'n anwastad ledled y gwahanol grwpiau mewn cymdeithas (Cyngor ar Bopeth 2015).

1.25 Mae Cyngor ar Bopeth hefyd yn tynnu sylw at weithrediad marchnadoedd, arferion hysbysebu a chontractau talu yn dylanwadu ar nifer a natur problemau defnyddwyr/cwsmeriaid (Cyngor ar Bopeth 2015). Credir bod y cyfuniad o brynu eitemau mawr, marchnadoedd tameidiog a rheoleiddio gwan yn golygu bod defnyddwyr yn agored i lefelau risg hynod uchel (Cyngor ar Bopeth 2015).

1.26 Mae sicrhau mynediad i bawb at gynnyrch ariannol a thechnoleg cyfathrebu hefyd bellach yn cael ei ystyried yn hanfodol i osgoi problemau lles (Cyngor ar Bopeth 2014b). Yn wir, credir bod ffonau symudol yn arbennig o bwysig i grwpiau incwm isel, gan fod posibilrwydd nad oes ganddynt linell ffôn tir yn y cartref neu gyfrifiadur personol. Fodd bynnag, mae rheoleiddio weithiau yn methu ymgyfarwyddo â datblygiad y marchnadoedd pwysig newydd hyn (e.e. ffonau symudol, masnachu cyfoedion-i-gyfoedion), a hynny'n gallu bod yn rhwystredig i ddefnyddwyr/cwsmeriaid (Cyngor ar Bopeth 2015a). Yn yr un modd, mae adroddiadau hefyd yn awgrymu bod rheoliadau wedi methu â diweddaru i gyd-fynd â newidiadau mewn marchnadoedd

llafur, gan danseilio hawliau cyflogaeth i'r rheiny sydd â threfniadau gweithio anhraddodiadol (Cyngor ar Bopeth 2016b).

1.27 Mae gweithrediad marchnadoedd yn gallu rhyngweithio ag amgylchiadau economaidd mewn ffyrdd anffodus. Er enghraifft, mae sefydliadau ar y rheng flaen wedi adrodd bod y dirwasgiad economaidd wedi rhoi cyfleoedd i fasnachwyr twyllodrus wneud arian drwy ddefnyddwyr/cwsmeriaid desbrad sy'n ceisio rheoli eu harian prinnach (Cyngor ar Bopeth 2011). Ar y llaw arall, credir bod dwy broblem mwyaf cyffredin cwsmeriaid – sef ceir ail-law a chynnal a chadw cartrefi – wedi gostwng yn ystod blynyddoedd cynnar y dirywiad diweddar, gan godi unwaith eto wrth i wariant ddechrau ailffynnu (Cyngor ar Bopeth 2015a).

1.28 Mae Cyngor ar Bopeth (Cyngor ar Bopeth 2014c) yn dangos yr effaith y gall newid polisi ei gael, gan ragweld y gallai diwygiadau lles Llywodraeth y Deyrnas Unedig tuag at gredyd cynhwysol effeithio yn y pen draw ar hyd at chwe miliwn o gartrefi. Tynnwyd sylw hefyd yn y blynyddoedd diwethaf at ganlyniadau defnyddio asesiadau meddygol i wneud penderfyniadau budd-daliadau (Cyngor ar Bopeth 2012), yr oedi hir cyn cael budd-daliadau plant (Cyngor ar Bopeth 2010) a'r 'gwahaniaethu' ariannol yn erbyn oedolion o dan 25 oed, sydd yn aml yn cael llai o fudd-daliadau (Cyngor ar Bopeth 2006).

1.29 Mae'r adroddiadau hyn hefyd wedi disgrifio sgîl-effeithiau rhyngweithio anfoddhaol â'r system budd-daliadau, gan arwain at ddiffyg cefnogaeth ariannol ar adegau pontio allweddol mewn bywyd (gan arwain at galedi yn y dyfodol), teimlo dan straen a diffyg urddas, problemau cael gafael ar fudd-daliadau eraill, a'r ymdeimlad o rwystredigaeth a diffyg rheolaeth sy'n cyd-fynd â hynny. Yn fwy cadarnhaol, ystyrid bod polisi'r llywodraeth yn dilyn argyfwng ariannol 2008 yn ganolog wrth ddiogelu llawer o bobl rhag colli eu cartrefi yn ddiangen (Cyngor ar Bopeth; yr Ymddiriedolaeth Cyngor Ariannol a Shelter 2009).

1.30 Mae'r rhyngweithio rhwng gwahanol fathau o broblemau yn thema fynych mewn llawer o astudiaethau ac mae'n arwyddocaol bod yr *achosion* a gofnodwyd am broblemau lles cymdeithasol (megis straen, colli hyder, colli incwm, ofn, afiechyd corfforol, aflonyddu, niwed i berthynas, a cholli cartref neu swydd) hefyd yn cael eu crybwyll yn aml fel *canlyniadau'r* problemau (Pleasence, P., Balmer, N.J., Patel, A., Cleary, A., Huskinson, T. a Cotton, T. 2011). Nid yw'n bosibl i'r astudiaeth hon ystyried a yw hyn i'w esbonio orau fel tystiolaeth o gadwyn achosol anuniongyrchol

rhwng problemau neu oherwydd cysyniadau gwaelodol megis tlodi, ond nid oes amheuaeth fod yna duedd i broblemau glystyru gyda'i gilydd.

1.31 Bydd hanner yr holl oedolion sy'n cael problem yn dioddef ail broblem o fewn 18 mis, gyda dros un o bob pump yn dioddef pedair problem neu fwy (Franklyn, F., Budd, T., Verrill, R. ac Willoughby, M. 2017). Uwchlaw unrhyw ffactor arall a drafodir uchod, y grŵp sydd mwyaf mewn perygl o ddioddef problemau lles cymdeithasol yw'r rhai sydd wedi dioddef problem lles cymdeithasol o'r blaen.

1.32 Mae dadansoddiadau clwstwr hierarchaidd (Franklyn, F., Budd, T., Verrill, R. ac Willoughby, M. 2017) wedi disgrifio'r berthynas ystadegol rhwng gwahanol fathau o broblemau (gweler hefyd H. Genn (1999) Paths to Justice: What People Think and Do About Going to Law, Rhydychen: Hart; H. Genn ac A. Paterson 2001; Pleasence, P.; Buck, A.; Balmer, N.J. *et al* 2002; Gramatikov, M. 2008; Coumarelos, C.et al 2012; Currie, A. 2009). Gan ddethol rhai ffigyrau sy'n uniongyrchol berthnasol i'r astudiaeth hon, mae yna orgyffwrdd arbennig o uchel rhwng y canlynol (mae'r ganran yn disgrifio maint y gorgyffwrdd):

- Problemau arian a dyled (27 y cant)
- Problemau dyled a budd-daliadau lles (28 y cant)
- Problemau tai rhent a dyled (24 y cant)
- Problemau cyflogaeth a defnyddwyr/cwsmeriaid (23 y cant)
- Problemau defnyddwyr/cwsmeriaid a thai o'u heiddo eu hunain (26 y cant)

1.33 Mae ffactorau demograffig ac economaidd hefyd yn rhyngweithio dros amser, yn ogystal â daearyddiaeth, gan gynhyrchu'r amgylchiadau unigryw sy'n codi mewn ardaloedd penodol. Er enghraifft, mae astudiaeth achos o Sir Benfro yn disgrifio sut y caiff pobl eu gyrru o'r trefi oherwydd safonau tai gwael ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, ond wedyn yn cael trafferth gyda chostau byw uwch yn y wlad. (Cyngor ar Bopeth 2015b). Pwysleisia Palmer a Monaghan (Palmer, C. a Monaghan, C. 2001) fod dadansoddiad ystadegol o newidynnau cymdeithasol-ddemograffig yn annhebygol o fedru esbonio'n llawn pam fod problemau lles cymdeithasol penodol i'w cael yn aml ar lefel leol, sy'n awgrymu y dylid dehongli'r canfyddiadau empirig yn yr adroddiad hwn gyda pheth gofal.

1.34 Mae'r llenyddiaeth a grynhoir uchod yn awgrymu bod ffactorau economaidd-gymdeithasol, gweithrediad marchnadoedd, a phenderfyniadau polisi yn rhyngweithio ag amgylchiadau personol megis oedran a chyfoeth i ddylanwadu ar nifer yr achosion o broblemau lles cymdeithasol. Ar lefel unigolyn, mae'n bosibl fod

gwahaniaethu rhwng achos ac effaith yn anodd, ac efallai y bydd bodolaeth problem hyd yn oed yn dylanwadu yn uniongyrchol ar y tebygolrwydd o gael problemau yn y dyfodol. Mewn ardaloedd penodol, mae ffactorau risg hefyd yn rhyngweithio â'i gilydd mewn ffyrdd cymhleth ac yn datblygu dros amser; ar ben hynny, mae'n bosibl ar brydiau fod bodolaeth problemau penodol mewn rhai ardaloedd yn anodd ei ddeall y tu hwnt i'r cyd-destun hanesyddol lleol.

## 2. Methodoleg

### Mesur yr angen am gyngor ar broblemau lles cymdeithasol

2.1 Er mwyn mesur yr angen am gyngor ar broblemau lles cymdeithasol, yn gyntaf mae'n rhaid pennu diffiniad gweithio priodol. Gall cyngor ar bynciau lles cymdeithasol fod ar sawl ffurf wahanol ac nid yw'n gyfyngedig i 'gyngor cyfreithiol', yn ystyr gul y term hwnnw. Pwrpas yr ymchwil hwn yw mesur cyfanswm yr angen am unrhyw fath o gyngor sy'n fuddiol berthnasol i 'broblemau traddodadwy'. Mae Genn a Paterson yn defnyddio'r term 'problemau traddodadwy' (*justiciable problems*) i gyfeirio at faterion sy'n codi cwestiynau cyfreithiol neu, os na chânt eu datrys yn gynharach, a allai yn y pen draw arwain at ddechrau achos llys neu ryw fath arall o weithdrefn gyfreithiol (e.e. tribiwnlysoedd) (Genn, H. & Paterson, A. 2001).

2.2 Mae'r term 'problemau traddodadwy' yn ddefnyddiol, gan ei fod yn awgrymu nad yw'r rheiny sy'n cynnig cyngor ar faterion o'r fath o reidrwydd yn gorfod bod yn gyfreithwyr neu weithwyr cyfreithiol proffesiynol (er y byddant mewn rhai achosion), ac, oherwydd hynny, cydnabyddir nad yw dulliau cyfreithiol bob amser yn cynnig yr ateb gorau i broblemau fel hyn (Pleasence, P. Balmer, N. & Sandefur, R. 2013; Lewis, P. 1973; Blacksell, M., Economides, K. ac Watkins, C. 1991). Mae'r ymchwil hwn felly yn mesur yr angen am gyngor ar 'broblemau traddodadwy', gyda'r cafeat ychwanegol nad yw problemau sy'n droseddol (yn hytrach na sifil) yn ôl eu natur o fewn y terfynau dan sylw.

2.3 Mae dwy nodwedd dealledig i broblemau traddodadwy sy'n ddefnyddiol i fod yn sail i ddewisiadau methodolegol yr astudiaeth hon. Yn gyntaf, gall unigolyn fod wedi cael problem draddodadwy heb gymryd unrhyw gamau i ddelio â hi. Gall fod llawer o rwystrau i gael mynediad at gyngor pan fydd person yn dioddef problem draddodadwy; amcangyfrifwyd bod llai na hanner y bobl sy'n dioddef problemau yn cael cyngor (Pleasence, P. a Balmer, N.J. 2010). Yn wir, mae'n bosibl fod argaeledd darpariaeth gwasanaeth cynghori ynddo'i hun yn cyfyngu ar faint o gyngor a geir. O'r herwydd ni fyddai dull methodolegol sydd ond yn adrodd nifer yr achosion a brosesir ar hyn o bryd gan wahanol ddarparwyr cyngor felly yn rhoi disgrifiad cywir o gyfanswm yr angen am gyngor o'r fath (gan gynnwys angen cudd).

2.4 Yn ail, gallai person fod wedi dioddef problem draddodadwy heb o reidrwydd sylweddoli ei bod yn broblem o'r fath (h.y. heb sylweddoli y gallai eu problem ddatblygu yn y pen draw yn un sy'n gyfreithiol ei natur). Mae'n debygol fod amrywiant mawr yn y ffordd y mae pobl yn dehongli ac yn dosbarthu eu problemau. Nid yw difrifoldeb canfyddedig neu sylweddoli fod mater yn draddodadwy neu'n 'agored i apêl' yn gallu cael eu defnyddio i benderfynu a gafwyd problem o'r fath mewn gwirionedd (Pleasence, P. Balmer, N. & Sandefur, R. 2013; Maxwell, G.M, Smith, C., Shepherd, P.J. a Morris, A. 1999). O'r herwydd mae angen ddefnyddio dull methodolegol nad yw'n dibynnu'n gyfan gwbl ar y person sy'n dioddef y broblem yn ei dehongli mewn unrhyw ffordd benodol (Eldred, C.A. a Reese, R.W. 1994). Mae arolygon sy'n gofyn i ymatebwyr hunan-ddewis yn y ffordd hon yn gallu cyflwyno tuedd tuag at fathau penodol o broblemau (sydd yn fwy tebygol o gael eu hadnabod yn gonfensiynol fel rhai 'cyfreithiol' eu natur) yn ogystal â grwpiau penodol o bobl (sydd â mwy o wybodaeth am eu hawliau nag sydd gan eraill).

2.5 Yn ffodus, datblygwyd casgliad o arolygon erbyn hyn sy'n cydnabod y materion hyn, gan ddechrau gydag Arolwg Llwybrau at Gyfiawnder Cymru a Lloegr a gyhoeddwyd yn 1999 (Genn, H. 1999), ynghyd ag astudiaeth debyg yn yr Alban ddwy flynedd yn ddiweddarach (Genn, H. a Paterson, A. 2001; mae arolygon sy'n mynd i'r afael â'r angen mwy penodol i gael cyngor cyfreithiol yn mynd yn ôl ymhellach o lawer, o leiaf cyn belled â'r Dirwasgiad Mawr yn yr Unol Daleithiau (e.e. Clark, C. a Corstvet, E. 1938)). Roedd yr astudiaethau 'Llwybrau at Gyfiawnder' hyn wedi bod yn sail i ddatblygiad yr Arolwg Cyfiawnder Sifil a Chymdeithasol, a gynhaliwyd yn 2001 a 2004 cyn esblygu i fod yn Arolwg Cyfiawnder Cymdeithasol a Sifil "Parhaus" Cymru a Lloegr, a gynhaliwyd rhwng 2006 i 2009 (Pleasence, P. a Balmer, N.J. 2010). Yn ddiweddar cafwyd un arall yn y maes astudio hwn (Franklyn, F., Budd, T., Verrill, R. ac Willoughby, M. 2017), ond roedd y gwaith o'i ddatblygu yn digwydd ar yr un pryd â llinell amser yr ymchwil hwn ac felly ni ellid ei ddefnyddio yn uniongyrchol fel ffynhonnell data. Fodd bynnag, mae canfyddiadau'r adroddiadau hyn yn awgrymu bod cyfraddau cyffredinol problemau traddodadwy, a'u hamlygrwydd mewn rhai grwpiau demograffig, wedi aros yn weddol sefydlog drwy gydol y blynyddoedd (gweler Pennod 1).

2.6 Mae’r gwaith ymchwil hwn yn tynnu’n arbennig o drwm ar yr Arolwg Panel Cyfiawnder Cymdeithasol a Sifil a wnaed rhwng 2010 a 2012 (Cyfadran y Gyfraith, Coleg Prifysgol Llundain, 2015). Roedd fformat hydredol yr arolwg hwn yn cynnwys dau gam, gyda’r ail gam wedi’i gynllunio’n bennaf ar gyfer dadansoddiad dilynol. Data Cam 1 a ddefnyddir yn y dadansoddiad yn yr adroddiad hwn, sef data a gasglwyd trwy gyfweliadau wyneb-yn-wyneb rhwng mis Mehefin a mis Hydref 2010. Cyfanswm maint y sampl yn arolwg Cam 1 oedd 3,806 o oedolion 16 mlwydd oed a throsodd, wedi’u llunio o gyfradd ymateb o 54 y cant.[1] (Mae rhagor o fanylion i’w cael yn Adroddiad Cam 1 yr arolwg; Pleasence, P., Balmer, N.J., Patel, A., Cleary, A., Huskinson, T. a Cotton, T. (2011) *Justice in England and Wales 2010: Report of the First Wave of the English and Welsh Civil and Social Justice Panel Survey*).

2.7 Ar y cyfan, gellir ystyried y sampl i fod yn fras gynrychioliadol o boblogaeth Cymru a Lloegr, ond bod yna rai eithriadau werth eu nodi. Mae’r eithriadau hyn yn bennaf yn deillio o gyfyngiadau'r Ffeil Cyfeiriadau Cod Post, a ddefnyddiwyd fel y ffrâm samplu ar gyfer yr arolwg. Mae’r Ffeil Cyfeiriadau Cod Post yn cwmpasu 98 y cant o boblogaeth y Deyrnas Unedig, ond nid, er enghraifft, pobl hŷn mewn gofal preswyl, cleifion mewn sefydliadau meddygol, myfyrwyr sy’n byw mewn sefydliadau addysgol, personél milwrol sy’n byw mewn sefydliadau amddiffyn, carcharorion, pobl mewn llety dros dro neu ganolfannau cadw mewnfudwyr, neu bobl sy’n cysgu ar y stryd. Yn ogystal, er bod llawer o sipsiwn/teithwyr wedi’u cofrestru mewn preswylfeydd confensiynol, bydd y rheiny sy’n byw yn bennaf mewn carafannau hefyd wedi’u heithrio o’r Ffeil Cyfeiriadau Cod Post.

2.8 Mae’r Ffeil Cyfeiriadau Cod Post yn ffrâm samplu gyffredin iawn mewn arolygon cenedlaethol, ac ystyrir bod yr eithriadau uchod yn gyffredinol yn rhai derbyniol. Fodd bynnag, yn achos yr Arolwg Cyfiawnder Cymdeithasol a Sifil mae’r eithriadau hyn o bosibl yn fwy perthnasol, o ystyried y gellid yn rhesymol ddisgwyl i lawer o’r grwpiau a grybwyllwyd uchod fod mewn perygl arbennig o broblemau traddodadwy penodol. Felly, mae’n rhaid cadw’r eithriadau hyn mewn cof wrth ddehongli’r dadansoddiad a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.

[1] Yn gyntaf, codwyd 3,335 o gyfeiriadau preswyl o’r 194 sector cod post yng Nghymru a Lloegr (cyfradd ymateb cartrefi o 88%) a llwyddwyd i gyfweld 61% o’r aelodau sy’n oedolion yn y cartrefi hynny. O ganlyniad roedd yr arolwg wedi cynhyrchu sampl haenedig dau gam, gyda chlystyru disgwyliedig o fewn sectorau cod post ac o fewn cartrefi.

2.9 Gofynnwyd i ymatebwyr Cam 1 yr Arolwg Cyfiawnder Cymdeithasol a Sifil, yn ystod cyfweliad wyneb-yn-wyneb, am eu profiad o broblemau yn ystod y 18 mis diwethaf, gan eu cymell â chardiau dangos a oedd yn disgrifio 104 o broblemau traddodadwy gwahanol.

2.10 Dengys dadansoddiad o'r data a gafwyd fod 33 y cant o'r ymatebwyr wedi dweud iddynt ddioddef un neu fwy o broblemau traddodadwy yn y 18 mis blaenorol, a'r dadansoddiad canlynol hefyd wedi'i nodi yn yr Adroddiad ar Gam 1 (Pleasence, P., Balmer, N.J., Patel, A., Cleary, A., Huskinson, T. a Cotton, T. (2011).

Tabl 2.1: Canran yr ymatebwyr a oedd wedi cael gwahanol fathau o broblemau traddodadwy ledled Cymru a Lloegr, fel y nodir yn Adroddiad Cam 1 Arolwg Panel Cyfiawnder Cymdeithasol a Sifil Cymru a Lloegr

| **Math o broblem** | **Nifer yr ymatebwyr** | **Canran yr ymatebwyr** |
|---|---:|---:|
| Cymdogion | 359 | 9.4 |
| Defnyddiwr/cwsmeriaid | 338 | 8.9 |
| Cyflogaeth | 211 | 5.5 |
| Arian | 202 | 5.3 |
| Dyledion | 185 | 4.9 |
| Tai rhent | 144 | 3.8 |
| Budd-daliadau lles | 166 | 4.4 |
| Anaf personol | 155 | 4.1 |
| Tor-perthynas | 80 | 2.1 |
| Addysg | 71 | 1.9 |
| Tai sy'n eiddo personol | 59 | 1.6 |
| Esgeulustod clinigol | 53 | 1.4 |
| Ysgariad | 41 | 1.1 |
| Trais yn y cartref | 39 | 1.0 |
| Achosion gofal | 9 | 0.2 |

n=3,806

2.11 Un newid o fersiynau blaenorol yr arolwg yw nad oedd ymatebwyr yn adrodd am broblemau gwahaniaethu ar wahân, ond yn hytrach yn nodi a oedd unrhyw broblem arall a gawsant yn ymwneud â gwahaniaethu ar sail hil, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran neu grefydd. Mae'r arolwg, felly, yn trin problemau gwahaniaethu fel categori trawsbynciol, sydd o bosibl yn croesi ar draws unrhyw broblem o fath arall. Mae Adroddiad Cam 1 yn nodi bod 8.1 y cant o'r problemau a

adroddwyd hefyd yn cynnwys elfen o wahaniaethu, yn ôl y rheiny sy'n dioddef y problemau.

2.12 Mae'r ffigyrau uchod o Adroddiad Cam 1 yn seiliedig ar grwpio problemau a adroddwyd o fewn 15 categori y penderfynwyd arnynt gan gynllunwyr yr arolwg. Er hynny, un o amcanion yr ymchwil hwn yw amcangyfrif y galw am chwe chategori, sef: Budd-daliadau Lles, Dyled, Defnyddwyr a Chyllid, Tai a Chymdogion, Cyflogaeth, a Gwahaniaethu. Er bod y chwe chategori hyn yn sicr â thebygrwydd â'r 15 problem (yn ogystal â gwahaniaethu) a gyflwynwyd yn Adroddiad Cam 1, eto nid ydynt yn union yr un fath. Isod ceir disgrifiad byr o bob un o chwe chategori Lles Cymdeithasol y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol.

2.13 Gall **problemau dyled** gynnwys fod ar ei hôl hi neu'n methu â thalu cardiau credyd, benthyciadau, biliau, trethi neu ddirwyon. Gellid hefyd roi cyngor ar broblemau llai ffurfiol, megis dyledion i deulu neu ffrindiau, yn ogystal â chyngor ar ddyledion i'r rheiny sydd â sawl taliad rhent neu forgais yn ddyledus, neu'r rheiny sy'n dioddef aflonyddu afresymol gan eraill sy'n ceisio casglu'r ddyled. Isod ceir amcangyfrifon ynghylch mynychder problemau dyled yng Nghymru a Lloegr yn seiliedig ar yr Arolwg Panel Cyfiawnder Cymdeithasol a Sifil (Cam 1) (Cyfadran y Gyfraith, Coleg Prifysgol Llundain, 2015).

Tabl 2.2: Sampl mynychder problemau traddodadwy yn ymwneud â dyled yng Nghymru a Lloegr

| | **Amlder** | **Canran** | **Canran cronnus** |
|---|---:|---:|---:|
| Dim problemau dyled | 3362 | 92.8 | 92.8 |
| Un broblem ddyled | 210 | 5.8 | 98.5 |
| Dwy broblem ddyled | 45 | 1.2 | 99.8 |
| Tair problem ddyled | 6 | 0.2 | 100 |
| Pedair problem ddyled | 1 | 0 | 100 |
| Cyfanswm (heb gynnwys data coll) | 3624 | 100 | |
| Cyfanswm (yn cynnwys data coll) | 3806 | | |

2.14 Mae **problemau budd-daliadau** yn cynnwys materion hawl a chael gafael ar yr ystod o fudd-daliadau a lwfansau eraill gan y wladwriaeth megis pensiwn y wladwriaeth. Gall problemau o'r fath hefyd gynnwys gwallau wrth asesu neu amser afresymol yn prosesu hawliadau/ceisiadau am fudd-daliadau lles.

Tabl 2.3: Sampl mynychder problemau traddodadwy yn ymwneud â budd-daliadau yng Nghymru a Lloegr

| | Amlder | Canran | Canran cronnus |
|---|---|---|---|
| Dim problem budd-daliadau | 3416 | 93.6 | 93.6 |
| Un broblem budd-daliadau | 214 | 5.9 | 99.5 |
| Dwy broblem budd-daliadau | 15 | 0.4 | 99.9 |
| Tair problem budd-daliadau | 3 | 0.1 | 100 |
| Cyfanswm (heb gynnwys data coll) | 3649 | 100 | |
| Cyfanswm (yn cynnwys data coll) | 3806 | | |

2.15 Gall **problemau tai a chymdogion** fod yn gysylltiedig â chaniatâd cynllunio, amharu mawr ar gyfleustodau, gwerthu neu brynu eiddo, ôl-ddyledion morgais neu adfeddiannu’r cartref. Gall tenantiaid mewn llety rhent hefyd chwilio am gyngor ar amodau byw anniogel neu anaddas, gwaith atgyweirio landlord, dychwelyd blaendaliadau, a throi allan neu fygwth troi allan. Yn ogystal, gellir rhoi cyngor ar gytundebau tenantiaeth, trefniadau ar gyfer talu biliau, sicrhau gwaith papur, a throsglwyddo prydlesi neu denantiaethau. Mae’r categori hwn hefyd yn cynnwys problemau oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol cymdogion neu gyd-letywyr ac aflonyddu gan landlordiaid.

Tabl 2.4: Sampl mynychder problemau traddodadwy yn ymwneud â thai a chymdogion yng Nghymru a Lloegr

| | Amlder | Canran | Canran cronnus |
|---|---|---|---|
| Dim problem tai neu â chymdogion | 3126 | 84.1 | 84.1 |
| Un broblem tai neu â chymdogion | 486 | 13.1 | 97.2 |
| Dwy broblem tai neu â chymdogion | 93 | 2.5 | 99.6 |
| Tair problem tai neu â chymdogion | 10 | 0.3 | 99.9 |
| Pedair problem tai neu â chymdogion | 3 | 0.1 | 100 |
| Cyfanswm (heb gynnwys data coll) | 3717 | 100 | |
| Cyfanswm (yn cynnwys data coll) | 3806 | | |

2.16 Mae **problemau cyflogaeth** yn cynnwys materion yn ymwneud â diswyddo, cael eich bygwth â diswyddo, colli swydd neu gael eich gwrthod yn annheg am swydd neu ddyrchafiad. Gall cyngor ar gyflogaeth hefyd fynd i'r afael â hawliadau cyflog neu bensiwn, hawliau megis absenoldeb mamolaeth, tâl salwch, hawl i wyliau, oriau gwaith, a newidiadau i'r amodau cyflogaeth. Gall problemau cyflogaeth hefyd ddeillio o aflonyddu yn y gwaith, amodau gwaith peryglus, anaf, neu gŵynion eraill yn y gweithle.

Tabl 2.5: Sampl mynychder problemau traddodadwy yn ymwneud â chyflogaeth yng Nghymru a Lloegr

| | **Amlder** | **Canran** | **Canran cronnus** |
|---|---|---|---|
| Dim problemau cyflogaeth | 3569 | 93.8 | 93.8 |
| Un broblem cyflogaeth | 204 | 5.4 | 99.1 |
| Dwy broblem cyflogaeth | 32 | 0.8 | 99.9 |
| Tair problem cyflogaeth | 2 | 0.1 | 100 |
| Cyfanswm | 3806 | 100 | |

2.17 **Cyngor ariannol gwael.** Mae'r categori hwn hefyd yn cynnwys anghydfodau ariannol â'r wladwriaeth, e.e. dros drethi neu fenthyciadau myfyrwyr, ac anghytuno personol megis hawliadau iawndal neu etifeddiaeth.

Tabl 2.6: Sampl mynychder problemau traddodadwy yn ymwneud â defnyddwyr/cwsmeriaid a chyllid yng Nghymru a Lloegr

| | **Amlder** | **Canran** | **Canran cronnus** |
|---|---|---|---|
| Dim problemau defnyddwyr na chyllid | 3362 | 88.8 | 88.8 |
| Un broblem defnyddwyr neu gyllid | 402 | 10.6 | 99.4 |
| Dwy broblem defnyddwyr neu gyllid | 24 | 0.6 | 100 |
| Cyfanswm (heb gynnwys data coll) | 3788 | 100 | |
| Cyfanswm (yn cynnwys data coll) | 3806 | | |

2.18 Gallai **problemau â gwahaniaethu** orgyffwrdd ag unrhyw un o'r pum categori problemau a ddisgrifiwyd uchod, pe bernid bod y mater yn ymwneud â gwahaniaethu ar sail oedran, hil, anabledd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol neu grefydd. Mae'r Arolwg Cyfiawnder Cymdeithasol a Sifil ond yn ymchwilio i wahaniaethu ar gyfer is-set o broblemau, felly mae cyfanswm maint y sampl yn llai o'i gymharu â'r categorïau eraill.

Tabl 2.7: Sampl mynychder problemau traddodadwy yn ymwneud â gwahaniaethu yng Nghymru a Lloegr

| | Canran y problemau y gallai gwahaniaethu wedi bod yn rhan ohonynt |
|---|---|
| Wedi cael problem yn ymwneud â defnyddwyr neu gyllid yn y 18 mis diwethaf | 4.53 |
| Wedi cael problem yn ymwneud â budd-daliadau yn y 18 mis diwethaf | 4.17 |
| Wedi cael problem yn ymwneud â dyled yn y 18 mis diwethaf | 3.35 |
| Wedi cael problem yn ymwneud â chyflogaeth yn y 18 mis diwethaf | 8.16 |
| Wedi cael problem yn ymwneud â thai yn y 18 mis diwethaf | 2.56 |
| Cyfanswm | 4.02 |


n=1,785

2.19 Mae rhai o’r 104 o broblemau a gyflwynwyd i ymatebwyr yr arolwg wedi’u gosod mewn sawl un o’r chwe chategori cyngor, a hynny’n adlewyrchu’r ffaith fod rhai problemau wir yn eistedd rhwng categorïau tra bod eraill mewn gwirionedd yn rhychwantu categorïau ac yn ddigon cymhleth i fod angen cyngor ar sawl ffurf. Er enghraifft, gellid ystyried ôl-ddyledion rhent sy’n arwain at risg o droi allan naill ai fel problem ddyled neu broblem tai, a byddai cyngor da yn ystyried y ddwy elfen. Lle bo’n briodol, fodd bynnag, mae’r ffigyrau a gyflwynir uchod felly wedi’u pwysoli i geisio lliniaru eu cyfrif ddwywaith. Trwyddo, mae pob problem sydd angen cyngor ar wahaniaethu hefyd mewn o leiaf un categori cyngor arall.

2.20 Nid yw cynllun samplu’r arolwg wedi’i optimeiddio i gynhyrchu ffigyrau ar gyfer Cymru yn unig[2]; mae lledaeniad daearyddol yr ymatebwyr yng Nghymru yn eithaf cyfyngedig a bach yw nifer y problemau traddodadwy yn yr is-sampl. Wedi dweud hynny, mae rhyw awgrym yn nata’r arolwg fod problemau traddodadwy yng Nghymru a Lloegr yn wahanol i ryw raddau. Trwy ddadansoddi’r cymysgedd o broblemau traddodadwy a gafodd trigolion Cymru a Lloegr ar wahân, ymddengys fod materion defnyddwyr a chyllid yn fwy amlwg (yn gymharol) yn Lloegr, tra bod problemau tai a chymdogion, budd-daliadau, dyledion a chyflogaeth ychydig yn fwy amlwg (yn gymharol) yng Nghymru. Dangosir hyn yn y siartiau cylch isod.


[2] Mae’r canlyniadau a gyflwynir yn y bennod Canfyddiadau yn rhannol oresgyn y broblem hon trwy ddefnyddio amcangyfrifon ar sail model.

Ffigwr 2.1: Cydbwysedd cymharol y chwe chategori o broblemau traddodadwy **yn Lloegr**, yn seiliedig ar ddata sampl o'r Arolwg Panel Cyfiawnder Cymdeithasol a Sifil (Cam 1, 2010)




n=2,125

Ffigwr 2.2: Cydbwysedd cymharol y chwe chategori o broblemau traddodadwy **yng Nghymru**, yn seiliedig ar ddata sampl o'r Arolwg Panel Cyfiawnder Cymdeithasol a Sifil (Cam 1, 2010)




N = 70

### Y broblem amcangyfrif

2.21 Disgwylir i'r sampl a luniwyd gan Gam 1 Arolwg Panel Cyfiawnder Cymdeithasol a Sifil gynhyrchu amcangyfrifon da iawn o wir duedd problemau traddodadwy 'yng Nghymru a Lloegr' (wedi'u cyfuno). Ond amcan yr astudiaeth hon yw creu rhyw fodd o amcangyfrif yn feintiol yr angen am gyngor mewn chwe chategori lles cymdeithasol ar gyfer pob un o'r 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru. O rannu'r sampl rhwng awdurdodau lleol, caiff ei ymestyn yn aruthrol, gyda phob awdurdod lleol yn cael maint sampl bach iawn neu ddim sampl o gwbl. Byddai hyn yn arwain at ansicrwydd mawr yn yr 'amcangyfrifon uniongyrchol' confensiynol ar gyfer ardaloedd sydd â maint sampl bach, ac yn wir nid oedd modd cael amcangyfrif o gwbl i ardaloedd oedd â maint sampl o sero.

2.22 Wrth wynebu'r math hwn o broblem amcangyfrif, dull synhwyrol fyddai ond gwneud amcangyfrifon ar y lefelau daearyddiaeth sydd â maint sampl rhesymol. Gelwir y rhain yn 'amcangyfrifon cyfun' (*pooled estimates*), gan y gellid yn effeithiol gyfuno meintiau samplau bach awdurdodau lleol gyda'i gilydd yn endidau daearyddol mwy o faint. Er enghraifft, gellid gwneud iawn am faint bach y sampl yn Sir Benfro drwy gronni'r sampl gydag awdurdodau lleol eraill yng ngorllewin Cymru. Ond mae hyn yn cyflwyno rhagdybiaeth fod gan awdurdodau lleol cyfagos gyfradd debyg o ran problemau traddodadwy. Yn ymarferol, nid oes fawr o reswm i gredu bod y rhagdybiaeth hon yn ddilys, a gall amcangyfrifon cyfun, felly, ddioddef gogwyddo difrifol.

2.23 O ystyried gwendidau'r amcangyfrifon 'uniongyrchol' a 'chyfun', mae ymarferwyr, gweinyddwyr ac academyddion wedi troi fwyfwy at fodelu rhagfynegol ar anghenion (Law, J.; Assenti, S.; Barton, G.; Kirsty McKissock Market Research UK Ltd; Baker, D.; Barrow, S; SeeIT Ltd. 2004; Bevan, G, Davis G a Pearce J 1999). Er enghraifft, yn Lloegr datblygwyd 'Small Area Predictive Needs Models' gan y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (CLS) (Pleasence, P, Buck, A, Goriely, T, Taylor J, Perkins, H a Quirk, H 2001) a defnyddiai hwnnw brocsi i ddangos yr angen am gymorth cyfreithiol ar gyfer gwahanol gategorïau yn y gyfraith lles cymdeithasol. Lluniwyd modelau rhagfynegol ar gyfer dyled, tai, cyflogaeth, budd-daliadau lles, iechyd a gofal yn y gymuned, a mewnfudo. Roedd pob un o'r modelau hyn wedi cynhyrchu mynegai o'r angen mewn ardaloedd lleol. Defnyddiwyd ystod o ffynonellau data i ffurfio pob mynegai, gan gynnwys nifer y gweithwyr mewn gwahanol sectorau diwydiannol, tribiwnlysoedd diwydiannol, aelodaeth o undeb llafur, digartrefedd, nifer

y bobl yn hawlio budd-daliadau diweithdra, nifer y trigolion â salwch cyfyngus hirdymor, nifer y bobl y disgwylir iddynt gael gofal seiciatrig fel claf mewnol, a nifer y bobl yn derbyn budd-daliadau anabledd.

2.24 Mae'r gwaith ymchwil hwn yn werth ei nodi oherwydd iddo ystyried ystod eang o ffynonellau data, a allai fod yn brocsi defnyddiol ar gyfer problemau traddodadwy. Ond mae papurau dilynol wedi awgrymu y dylai dulliau o'r fath fod yn seiliedig ar sylfaen empirig cadarnach (Law, J.; Assenti, S.; Barton, G.; Kirsty McKissock Market Research UK Ltd; Baker, D.; Barrow, S; SeeIT Ltd. 2004; Baker, B & Barrow, S. 2006). Eu hawgrym hwy yw y dylid cynnal dadansoddiad yn gyntaf i gyfiawnhau'n llawn y dewis o ffactorau sy'n cyfrannu at sgoriau'r mynegai, yn ogystal ag i ba raddau y dylai gwahanol ffactorau gyfrannu at fynegai penodol.

2.25 Gellir gwneud beirniadaethau tebyg o enghreifftiau cynnar eraill o fodelu rhagfynegol ar anghenion, megis y dull ANARAK sy'n seiliedig ar amddifadedd (*the Advice Needs Assessment & Resource Allocation Kit* a ddatblygwyd gan Michael Bell Associates). Er y gall ymddangos yn rhesymol tybio cysylltiad cryf rhwng amddifadedd a rhai mathau o broblemau traddodadwy, gwendid y dulliau hyn yw methu â mesur yn empirig natur y mathau hyn o gysylltiad. Mae hyder yn yr amcangyfrifon yn cael ei danseilio os nad ystyrir bod y penderfyniadau methodolegol yn seiliedig ar ddata. Er bod modd i sefydliadau rheng flaen sy'n rhoi cyngor gasglu rhywfaint o ddata ar broffil defnyddwyr eu gwasanaeth, nid yw hyn yn cynrychioli segmentau'r boblogaeth a allai fod â galw cudd am gyngor ar broblemau traddodadwy ond nad ydynt ar hyn o bryd yn defnyddio gwasanaethau cymorth.

2.26 Un ffordd o ddefnyddio'r data ei hun i awgrymu procsïau da i broblemau traddodadwy yw defnyddio technegau atchweliad (*regression*) ar ddata arolwg o safon. Mae modelau atchweliad yn defnyddio cydberthyniadau mewn data i fesur y berthynas rhwng problemau traddodadwy a newidynnau eraill. Yn y bôn mae'r dull yn cynnwys pum cam allweddol:

i. Cael gafael ar set ddata sy'n cynnwys cofnod o broblemau traddodadwy sampl o bobl, ynghyd â newidynnau eraill sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am yr unigolion hyn.

ii. Defnyddio'r newidynnau hyn i fodelu nifer yr achosion o wahanol fathau o broblemau traddodadwy gan ddefnyddio dadansoddiad atchweliad. Wrth wneud hynny, llunio fformiwlâu sy'n mesur y berthynas rhwng y problemau traddodadwy a'r newidynnau sy'n cydberthyn iddynt.

iii. Cael gafael ar ail set ddata ar gyfer sampl mwy o faint o bobl/ardaloedd sydd ond angen cynnwys y newidynnau sy'n rhagfynegyddion pwysig o broblemau traddodadwy – nid oes rhaid iddi fod â chofnod o'r problemau traddodadwy eu hunain (sy'n golygu y gellid o bosibl ddefnyddio arolygon mwy o faint nad ydynt yn gofyn am broblemau traddodadwy).

iv. Defnyddio'r fformiwlâu o'r dadansoddiad atchweliad i'r newidynnau yn yr ail set ddata. Wrth wneud hynny, gellir llunio amcangyfrifon o nifer yr achosion o broblemau traddodadwy ar gyfer pob ardal yn yr ail set ddata, dim ots faint o ymatebwyr o'r ardal honno a ymatebodd i'r arolwg cyntaf am broblemau traddodadwy.


v. Lluosi nifer yr achosion o broblemau traddodadwy â maint poblogaeth (oedolion) pob ardal i gynhyrchu amcangyfrifon absoliwt o nifer y problemau traddodadwy ym mhob ardal.

2.27 Enghraifft dda o'r dull cyffredinol hwn yw'r gwaith a ddatblygwyd gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol a CACI (Gwasanaeth Cynghori Ariannol / CACI 2016). Mae'r astudiaeth yn cyfuno atebion tri arolwg am ddyledion ac yna yn atodi cofnod pob ymatebydd i newidynnau demograffig, agweddau ac ymddygiad o gronfa ddata defnyddwyr. Mae hyn yn rhoi set ddata gyfoethog er mwyn adeiladu model atchweliad o ymddygiad dyled. Mae'r berthynas rhwng y newidynnau esboniadol a'r broblem draddodadwy (yn yr achos hwn, dyled) yn cael eu profi yn ystadegol ac yn cael eu mesur yn ystod y weithdrefn atchweliad. Drwy wedyn gymhwyso'r cyfernodau atchweliad i gronfa ddata fasnachol fawr (cronfa ddata Ocean CACI), gellir gwneud rhagfynegiadau o sefyllfa dyledion miliynau o unigolion nad ydynt wedi llenwi'r holiadur gwreiddiol am ddyled.

2.28 Fodd bynnag, mae'r Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol (NAN) am ddatblygu methodoleg sy'n dibynnu yn unig ar y data sydd ar gael yn gyhoeddus, sy'n golygu peidio defnyddio cronfeydd data mawr am ddefnyddwyr fel y rhai a ddefnyddir yn astudiaeth y Gwasanaeth Cynghori Ariannol. Gellir ailadrodd dull sy'n seiliedig ar ddata sydd ar gael yn gyhoeddus am gost isel a byddai ganddo fwy o dryloywder nag un wedi'i adeiladu ar ddata masnachol.

2.29 Mae'r diagram Venn isod yn crynhoi nodweddion angenrheidiol y ddwy set ddata sy'n rhaid eu cael ar gyfer yr astudiaeth hon a'r berthynas rhyngddynt.

Ffigwr 2.3: Diagram Venn yn dangos y cyfansoddiad a'r berthynas rhwng y ddwy set ddata a ddefnyddir yn y fethodoleg




2.30 Yn yr astudiaeth hon, mae Set Ddata 1 yn bennaf yn cynnwys data o'r Arolwg Panel Cyfiawnder Cymdeithasol a Sifil, sydd eisoes wedi'i drafod yn eithaf manwl, tra bod Set Ddata 2 yn tynnu yn bennaf ar Arolwg Cenedlaethol Cymru (Llywodraeth Cymru 2015b). Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru wedi'i gynllunio i fod yn gynrychioliadol o'r holl oedolion 16 oed neu hŷn sy'n byw mewn cartrefi preifat. Mae wedi'i gynllunio i sicrhau sampl effeithiol o 600 o bobl ar y lleiaf ar gyfer pob awdurdod lleol. Codwyd y sampl o ddetholiad ar hap o gyfeiriadau yng Nghymru gan ddefnyddio'r Ffeil Cyfeiriadau Cod Post. Mae gwybodaeth fanwl i'w chael yn yr Adroddiad Technegol (Llywodraeth Cymru 2015v). Disgwylir y bydd yr arolwg yn cael ei ailadrodd yn rheolaidd yn y dyfodol, a byddai hynny'n rhoi modd diweddaru amcangyfrifon.

2.31 Mae'r ddwy set ddata hefyd wedi'u hatodi wrth rai newidynnau ychwanegol sydd ar gael gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), fel y disgrifir yn y Nodiadau Methodolegol.

2.32 Defnyddiwyd atchweliad llinol wedi'i gyffredinoli (sydd â swyddogaeth gysylltu logit ac sy'n tybio dosbarthiad binomaidd) i fodelu nifer yr achosion o broblemau traddodadwy wrth ddefnyddio Set Ddata 1. Gellir ffurfweddu atchweliad llinol wedi'i gyffredinoli (Nelder, John*;* Wedderburn, Robert 1972) i roi modd modelu cyfraddau (h.y. nifer yr achosion o broblemau traddodadwy yn y boblogaeth). Mae hyn yn well na defnyddio model sgwariau lleiaf arferol, gan nad yw hwnnw'n addas i fesur cyfraddau gan ei fod yn caniatáu i amcangyfrifon gymryd unrhyw werth (ond rhaid i gyfraddau gael eu 'ffinio' o fewn terfynau penodol). Datblygwyd pum model ar 'lefel ardal' ar gyfer y categorïau 'Problemau Dyled', 'Problemau Budd-daliadau', 'Problemau Tai a Chymdogion', 'Problemau Cyflogaeth' a 'Phroblemau Defnyddwyr/Cwsmeriaid a Chyllid'.

2.33 Gan fod llenyddiaeth yn awgrymu y byddai'n ddefnyddiol cysylltu ffactorau macro (ardal/cenedlaethol) a micro (unigol) â ffactorau traddodadwy, cynhaliwyd hefyd rownd flaenorol o fodelu ar lefel unigolyn gan ddefnyddio modelau effeithiau ar hap logistaidd (Henderson, C. R. "Estimation of Variance and Covariance Components." *Biometrics*, cyfrol 9, rhif 2, 1953, tt. 226–252). Mae'r modelau hyn yn mesur y ffactorau sy'n gysylltiedig â risg uwch neu is i unigolyn o ddioddef problem â dyled, cyflogaeth neu fudd-daliadau. Yna ystyriwyd y 'ffactorau risg i unigolyn' sy'n deillio o hynny (cyfartaledd ar gyfer pob awdurdod lleol) yn gyd-amrywebau yn y modelau terfynol ar lefel ardal. Cyflwynir y newidynnau ym mhob model, eu cyfernodau amcan (sy'n mesur y berthynas fathemategol â'r broblem draddodadwy), a'u gwerthoedd arwyddocâd (sy'n dangos faint o hyder ystadegol y gellir ei roi yn y berthynas) yn y Nodiadau Methodolegol.

2.34 Dangosir cywirdeb y modelau, i ryw raddau, wrth gymharu amcangyfrifon yr arolwg uniongyrchol o nifer yr achosion o broblemau yn yr awdurdodau lleol a samplwyd â'r amcangyfrifon sy'n seiliedig ar y model. Ar y cyfan, mae'r gymhariaeth hon yn awgrymu bod yr amcangyfrifon sy'n seiliedig ar fodel a'r amcangyfrifon uniongyrchol yn dangos patrymau rhesymol o debyg o ran y cyfraddau ar draws yr ardaloedd. Ar gyfer problemau dyled a phroblemau budd-daliadau, mae cydberthynas o .88 a .87, yn y drefn honno, rhwng amcangyfrifon sy'n seiliedig ar fodel ac amcangyfrifon uniongyrchol, tra bod y ffigyrau cyfatebol ar gyfer problemau tai a chymdogion,

problemau defnyddwyr a chyllid a phroblemau cyflogaeth yn .69,. 63 a .52, yn y drefn honno. Awgrymir defnyddio'r wybodaeth hon fel canllaw i'r hyder cymharol y dylid ei roi i'r amcangyfrifon terfynol, gyda chyfernod â chydberthyniad uchel yn debygol o fod yn arwydd o fodel da. Roedd y Gwasanaeth Cynghori Ariannol hefyd wedi caniatáu mynediad cynnar i'r tîm ymchwil at eu hamcangyfrifon ar ddyledrwydd at ddibenion dilysu. Gellir cael rhagor o wybodaeth am ddilysu amcangyfrifon yn y Nodiadau Methodolegol.

2.35 Drwy gymhwyso'r cyfernodau atchweliad (yn y fformiwleiddiad priodol) i Set Ddata 2, gellir llunio amcangyfrifon o gyfraddau nifer achosion y chwe math o broblem draddodadwy ar gyfer pob awdurdod lleol. I gyfrifo nifer y problemau ym mhob awdurdod lleol, caiff cyfraddau nifer yr achosion eu lluosi â'r boblogaeth amcangyfrifedig (16 oed neu drosodd) ar gyfer pob ardal. Gan fod rhai problemau yn syrthio i fwy nag un o'r categorïau, mae hefyd yn angenrheidiol pwysoli ychwanegol i osgoi cyfrif ddwywaith[3]. Yn y Nodiadau Methodolegol ceir arweiniad ynghylch sut yn union y caiff y cyfernodau atchweliad eu cymhwyso i Set Ddata 2 i gynhyrchu amcangyfrifon. Gellir defnyddio'r arweiniad hwn i adnewyddu amcangyfrifon wrth i ddata newydd (megis datganiadau gan Arolwg Cenedlaethol Cymru yn y dyfodol) ddod i'r fei a dylid ei ddefnyddio ar y cyd â'r canllaw methodoleg (sydd yn y Nodiadau Methodolegol.)

**Cyfyngiadau amcangyfrifon sy'n seiliedig ar fodel**

2.36 Mae modelau ystadegol, oherwydd eu natur, yn or-syml. Drwy wneud defnydd o nifer cymharol fach o newidynnau esboniadol, mae'r modelau yn gallu amcangyfrif dosbarthiad problemau traddodadwy yn effeithlon. Fodd bynnag, mae rhywfaint o amrywiad na all y modelau roi cyfrif amdanynt a rhaid i'r amcangyfrifon sy'n deillio gael eu trin fel *amcangyfrifon*.

2.37 Un gwendid amlwg yw bod yr arolygon y mae'r modelau yn seiliedig arnynt yn eithrio rhai grwpiau o bobl ac nid ydynt yn mesur rhai ffactorau y byddai eu hangen i greu modelau esboniadol mwy cynhwysfawr. Mae'r dull hefyd yn ei gwneud yn ofynnol fod newidynnau ar gael yn Set Ddata 1 a Set Ddata 2 ill dwy, a hynny'n cyfyngu ymhellach ar y casgliad o newidynnau esboniadol y gellir eu cynnwys yn y modelau.

[3] Pwysoliad budd-daliadau lles = 0.9588. Pwysoliad tai = 0.9767. Pwysoliad dyled = 0.9522. Pwysoliad defnyddwyr/cwsmeriaid a chyllid = 0.9953. Pwysoliad cyflogaeth = 1.

2.38 Gall amgylchiadau lleol cymhleth hefyd gael effaith fawr ar broblemau traddodadwy, ac efallai y bydd y modelau yn methu â dal hyn yn llawn. Mae'r amcangyfrifon sy'n seiliedig ar fodel wedi cael eu dilysu yn erbyn amcangyfrifon uniongyrchol a gwelwyd eu bod yn ganllaw rhesymol i batrwm cyffredinol gwahanol fathau o broblemau traddodadwy ledled Cymru a Lloegr, ond mae'r modelau yn debygol o weithio'n well ar gyfer rhai ardaloedd nag eraill.

2.39 Er nad yw'n bosibl dweud lle gallai unrhyw anghywirdeb yn yr amcangyfrifon ddigwydd, gellir disgrifio rhai tueddiadau cyffredinol yn yr amcangyfrifon sy'n seiliedig ar fodel, a gall fod yn ddefnyddiol cadw'r rhain mewn cof wrth ddehongli'r canfyddiadau. Ar y cyfan, mae amcangyfrifon sy'n seiliedig ar fodel o'r math a gyflwynir yn yr adroddiad hwn (a elwir hefyd yn amcangyfrifon 'synthetig') yn tueddu i danamcangyfrif gwir nifer yr amrywiant sydd rhwng ardaloedd. Effaith y geidwadaeth hon yw bod yr amcangyfrifon yn cael eu tynnu tuag at y cyfartaledd cyffredinol nes bod lefelau uchel iawn o broblemau traddodadwy yn cael eu tanbrisio a lefelau isel iawn yn cael eu goramcangyfrif.

2.40 Fodd bynnag, ceir hefyd ffynonellau gogwyddo eraill sy'n gweithredu i gyfeiriadau gwahanol. Er enghraifft, mae'r modelau yn rhagdybio llinoledd yn y berthynas ystadegol rhwng y newidynnau esboniadol a'r problemau traddodadwy. Ond mae'n bosibl fod y rhagdybiaeth hon yn methu ar yr eithafion os oes effeithiau 'nenfwd' neu 'llawr' sy'n cyfyngu ar y berthynas linol. Er enghraifft, efallai y bydd model yn nodi bod cyfradd y problemau dyled mewn awdurdod lleol yn gostwng un pwynt canran pan fydd cyfradd y trigolion a gyflogir mewn galwedigaethau proffesiynol yn cynyddu un pwynt canran. Er y gall rhesymeg y model yn ddamcaniaethol awgrymu na fyddai gan ardal sydd â mwy na 50% o weithwyr proffesiynol broblemau dyled o gwbl, ymddengys yn annhebygol iawn y byddai hynny'n wir. Gallai hyn olygu amcangyfrifon llai cywir ar gyfer awdurdodau lleol sy'n anarferol o unffurf o ran y newidynnau esboniadol.

2.41 Un ffordd o ddeall y mater hwn yw ystyried y gwahaniaethau rhwng Cymru a Lloegr. Mae'r modelau yn seiliedig ar sampl o awdurdodau lleol ledled Cymru a Lloegr, ond sydd, yn ymarferol, wedi'i ddominyddu gan ddata o Loegr. Mae'r berthynas ystadegol yn y modelau yn wir ar draws y set ddata hon, ond efallai na fydd ardaloedd sy'n arbennig o annodweddiadol o ran y set ddata hon yn cael eu cyfrif gystal gan y model. Er enghraifft, gellid cael awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n annodweddiadol oherwydd eu bod yn wledig iawn, neu'n arbennig o unffurf o ran

swyddi neu ddaliadaeth tai. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod yr amcangyfrifon ar gyfer ardaloedd o'r fath yn anghywir, dim ond nad oedd y berthynas ystadegol sy'n sail i'r modelau wedi cael eu profi mewn ardaloedd o'r math hwn.

2.42 Yn olaf, mae rhagdybiaeth bod y berthynas a ddisgrifiwyd gan y modelau yn wir dros gyfnod o amser. Mae'n bosibl y bydd rhai o'r cysylltiadau hyn yn datblygu dros amser. Er enghraifft, gallai polisi newydd gan y llywodraeth, digwyddiadau macro-economaidd neu newidiadau yn y farchnad lafur neu'r farchnad gynnyrch wneud rhai grwpiau yn fwy (neu'n llai) agored i broblemau traddodadwy mewn ffyrdd nad yw'r modelau yn eu cofnodi ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae llawer o'r cysylltiadau rhwng problemau traddodadwy a newidynnau economaidd-gymdeithasol wedi ennill eu plwyf yn eithaf da a byddai'n syndod pe byddai'r rhain yn newid yn ddramatig yn y tymor canolig.

# 3. Canfyddiadau

## Nifer yr achosion amcangyfrifedig o broblemau traddodadwy

3.1 Mae’r tablau isod yn dangos nifer yr achosion amcangyfrifedig o bum math o broblemau traddodadwy ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae ‘nifer yr achosion’ (*prevalence*) yn cyfeirio at y nifer o broblemau y disgwylir i ddigwydd am bob 100 o drigolion (16 oed neu hŷn) mewn cyfnod o 18 mis. Er enghraifft, byddai disgwyl i 100 o drigolion (16 oed neu hŷn) o Ynys Môn a ddewiswyd ar hap ddioddef saith o broblemau traddodadwy â budd-daliadau mewn cyfnod o 18 mis.

3.2 Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod saith y cant o drigolion Ynys Môn yn dioddef o broblemau traddodadwy â budd-daliadau, gan y gall rhai trigolion gael sawl problem â budd-daliadau. Yn yr un modd, efallai mai rhai o’r trigolion sy’n cael problemau â budd-daliadau yw’r un trigolion sy’n cael mathau eraill o broblemau, megis problemau cyflogaeth neu ddyled. Mae’r tabl felly yn cyfateb nifer yr achosion o broblemau ymysg poblogaethau lleol, ond nid canran y trigolion sy’n eu dioddef.

Tabl 3.1: Nifer yr achosion amcangyfrifedig o broblemau traddodadwy am bob 100 o bobl mewn cyfnod o 18 mis, yn ôl awdurdod lleol

| Ardal | Budd-daliadau | Cyflogaeth | Tai a Chymdogion | Dyled | Defnyddwyr a Chyllid |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 7.19 | 7.23 | 13.10 | 8.80 | 2.33 |
| Gwynedd | 7.77 | 7.62 | 22.55 | 10.15 | 2.03 |
| Conwy | 7.29 | 6.50 | 16.30 | 9.34 | 2.11 |
| Sir Ddinbych | 6.83 | 6.60 | 11.90 | 8.63 | 2.00 |
| Sir y Fflint | 7.15 | 7.31 | 17.40 | 11.62 | 1.99 |
| Wrecsam | 8.10 | 7.15 | 22.67 | 14.94 | 2.30 |
| Powys | 5.83 | 5.61 | 14.72 | 9.02 | 1.47 |
| Ceredigion | 5.22 | 5.12 | 18.53 | 8.17 | 1.41 |
| Sir Benfro | 6.26 | 5.53 | 13.15 | 10.95 | 1.84 |
| Sir Gaerfyrddin | 6.35 | 6.04 | 12.66 | 10.29 | 2.08 |
| Abertawe | 8.09 | 6.34 | 22.47 | 9.31 | 1.97 |
| Castell-nedd Port Talbot | 7.44 | 6.91 | 14.85 | 11.19 | 2.15 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 8.54 | 7.15 | 17.19 | 13.01 | 2.30 |
| Bro Morgannwg | 6.81 | 7.04 | 13.18 | 7.63 | 1.26 |
| Caerdydd | 6.80 | 6.37 | 19.08 | 7.14 | 1.40 |
| Rhondda Cynon Taf | 8.42 | 6.87 | 14.74 | 11.22 | 1.65 |
| Merthyr Tudful | 8.55 | 6.12 | 12.21 | 12.08 | 2.24 |
| Caerffili | 8.35 | 6.14 | 16.03 | 12.05 | 2.04 |
| Blaenau Gwent | 7.67 | 6.55 | 18.91 | 12.85 | 2.03 |
| Torfaen | 8.97 | 7.36 | 18.28 | 14.69 | 2.82 |
| Sir Fynwy | 5.84 | 6.06 | 20.45 | 10.96 | 1.56 |
| Casnewydd | 8.00 | 7.50 | 18.29 | 10.05 | 1.70 |

*Mae graddiant lliw ym mhob colofn. Mae coch yn dynodi cyfradd cymharol uchel o fath penodol o broblem draddodadwy, tra bod gwyrdd yn dynodi cyfradd gymharol isel.[4] Mae'r ffigyrau hyn yn amcangyfrifon ac felly gallant fod yn agored i anghywirdebau. Gall amgylchiadau lleol cymhleth gael effaith fawr ar broblemau traddodadwy a gall amcangyfrifon ar sail model fod yn gywirach i rai ardaloedd nag i eraill (gweler Pennod 2 i gael rhagor o wybodaeth).*

### Nifer amcangyfrifedig y problemau traddodadwy

3.3 Mae'r tabl isod yn dangos nifer amcangyfrifedig y problemau traddodadwy yn y pum categori ym mhob awdurdod lleol. Caiff hyn ei gyfrifo drwy gymhwyso cyfraddau nifer yr achosion at nifer amcangyfrifedig y trigolion 16 oed a throsodd sydd ym mhob awdurdod lleol (gyda pheth pwysiad bychan, fel y disgrifir yn y fethodoleg). Mae'r tabl yn dangos, fel enghraifft, y byddai disgwyl 12,724 o broblemau cyflogaeth i godi yn Abertawe yn ystod cyfnod o 18 mis.

[4] Graddfeydd lliw wedi'u cynhyrchu drwy'r teclyn Fformatio Amodol ar Microsoft Excel lle mae gwyrdd yn dynodi gwerth isel a choch yn dynodi gwerth uchel.

3.4 Mae'r ffigyrau yn ymwneud ag amserlen 18 mis. Canfu arolwg diweddar fod chwech o bob 10 o ymatebwyr (61 y cant) yn adrodd bod eu problem wedi dod i ben erbyn iddynt gael eu cyfweld ar ddiwedd y cyfnod o 18 mis (Franklyn, F., Budd, T., Verrill, R. ac Willoughby, M. 2017). Gellir amcangyfrif felly fod tua phedwar o bob 10 (39 y cant) o'r problemau a nodir yn y tabl uchod ar y gweill ar unrhyw adeg benodol.

Tabl 3.2: Nifer amcangyfrifedig y problemau traddodadwy mewn cyfnod o 18 mis, yn ôl awdurdod lleol

| Ardal | Budd-daliadau | Cyflogaeth | Tai a Chymdogion | Dyled | Defnyddwyr a Chyllid |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 3998 | 4193 | 7421 | 4860 | 1345 |
| Gwynedd | 7599 | 7772 | 22465 | 9858 | 2061 |
| Conwy | 6801 | 6325 | 15490 | 8653 | 2043 |
| Sir Ddinbych | 5082 | 5122 | 9019 | 6377 | 1545 |
| Sir y Fflint | 8617 | 9189 | 21362 | 13908 | 2490 |
| Wrecsam | 8558 | 7879 | 24400 | 15677 | 2523 |
| Powys | 6210 | 6233 | 15973 | 9542 | 1625 |
| Ceredigion | 3183 | 3256 | 11510 | 4948 | 893 |
| Sir Benfro | 6128 | 5646 | 13113 | 10646 | 1870 |
| Sir Gaerfyrddin | 9279 | 9205 | 18844 | 14932 | 3155 |
| Abertawe | 15568 | 12724 | 44047 | 17792 | 3935 |
| Castell-nedd Port Talbot | 8296 | 8036 | 16868 | 12392 | 2489 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 9539 | 8330 | 19560 | 14432 | 2667 |
| Bro Morgannwg | 6791 | 7322 | 13388 | 7556 | 1304 |
| Caerdydd | 18992 | 18556 | 54285 | 19805 | 4059 |
| Rhondda Cynon Taf | 15605 | 13280 | 27829 | 20652 | 3174 |
| Merthyr Tudful | 3951 | 2950 | 5748 | 5544 | 1075 |
| Caerffili | 11689 | 8964 | 22858 | 16752 | 2964 |
| Blaenau Gwent | 4229 | 3766 | 10620 | 7036 | 1162 |
| Torfaen | 6450 | 5520 | 13391 | 10491 | 2105 |
| Sir Fynwy | 4312 | 4666 | 15380 | 8036 | 1196 |
| Casnewydd | 9059 | 8858 | 21097 | 11302 | 1998 |

*Mae graddiant lliw ym mhob colofn. Mae coch yn dynodi cyfradd cymharol uchel o broblemau (o fewn y categori hwnnw), tra bod gwyrdd yn dynodi cyfradd gymharol isel. Mae'r ffigyrau hyn yn amcangyfrifon ac felly gallant fod yn agored i anghywirdebau. Gall amgylchiadau lleol cymhleth gael effaith fawr ar broblemau traddodadwy a gall amcangyfrifon ar sail model fod yn fwy cywir i rai ardaloedd nag i eraill.*

### Cyfanswm nifer amcangyfrifedig y problemau traddodadwy

3.5 Mae'r tabl canlynol yn dangos cyfanswm nifer y problemau traddodadwy amcangyfrifedig ar draws pob un o'r pum categori a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth hon, a'r nifer a amcangyfrifir i gynnwys gwahaniaethu, hefyd. Er enghraifft, mae'r siart yn dangos y disgwylir i drigolion Blaenau Gwent ddioddef 26,812 o broblemau traddodadwy (ar draws y pum categori a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth hon) yn ystod cyfnod o 18 mis, a 1,044 o'r rhain hefyd yn cynnwys gwahaniaethu.

3.6 Noder bod cwmpas yr astudiaeth hon yn gyfyngedig i bump o gategorïau problemau traddodadwy a ddisgrifiwyd eisoes (gweler Pennod 2). Nid yw'r ffigyrau felly yn cynnwys problemau eraill, megis problemau gyda'r system ysgol, gyda thriniaethau clinigol neu faterion cyfreithiol sy'n codi o faterion ysgariad neu amddiffyn plant.

3.7 Mae amcangyfrifon ynghylch nifer y problemau gwahaniaethu yn seiliedig ar gyfran y gwahanol fathau o broblemau sy'n tueddu i gynnwys gwahaniaethu hefyd, ledled Cymru a Lloegr. Felly, er bod yr amcangyfrifon yn cymryd i ystyriaeth y cymysgedd unigryw o wahanol fathau o broblemau ym mhob ardal, nid ydynt yn cymryd i ystyriaeth amgylchiadau arbennig a allai gael dylanwad ar wahaniaethu yn lleol. Er enghraifft, byddai disgwyl hefyd i bresenoldeb poblogaethau mawr o ymfudwyr ac i ba raddau y mae integreiddio wedi bod yn llwyddiannus fod yn ffactorau pwysig yn nifer yr achosion o rai mathau o wahaniaethu ac ni fyddai hyn o bosibl wedi'u hadlewyrchu'n ddigonol yn yr amcangyfrifon.

Tabl 3.3: Nifer amcangyfrifedig y problemau traddodadwy a’r nifer yr amcangyfrifir sy’n cynnwys gwahaniaethu mewn cyfnod o 18 mis

| **Awdurdod lleol** | **Cyfanswm nifer y problemau traddodadwy** | **Nifer y problemau hynny y gallai gwahaniaethu fod yn rhan ohonynt** |
|---|---|---|
| Ynys Môn | 21818 | 923 |
| Gwynedd | 49755 | 1950 |
| Conwy | 39313 | 1579 |
| Sir Ddinbych | 27144 | 1144 |
| Sir y Fflint | 55566 | 2235 |
| Wrecsam | 59038 | 2264 |
| Powys | 39584 | 1570 |
| Ceredigion | 23790 | 899 |
| Sir Benfro | 37403 | 1493 |
| Sir Gaerfyrddin | 55415 | 2264 |
| Abertawe | 94066 | 3589 |
| Castell-nedd Port Talbot | 48081 | 1961 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 54528 | 2183 |
| Bro Morgannwg | 36360 | 1536 |
| Caerdydd | 115697 | 4543 |
| Rhondda Cynon Taf | 80540 | 3282 |
| Merthyr Tudful | 19268 | 787 |
| Caerffili | 63228 | 2500 |
| Blaenau Gwent | 26812 | 1044 |
| Torfaen | 37957 | 1509 |
| Sir Fynwy | 33589 | 1278 |
| Casnewydd | 52313 | 2110 |

*Mae graddiant lliw ym mhob colofn. Mae coch yn dynodi cyfradd cymharol uchel o broblemau, tra bod gwyrdd yn dynodi cyfradd gymharol isel. Mae’r ffigyrau hyn yn amcangyfrifon ac felly gallant fod yn agored i anghywirdebau. Gall amgylchiadau lleol cymhleth gael effaith fawr ar broblemau traddodadwy a gall amcangyfrifon ar sail model fod yn fwy cywir i rai ardaloedd nag i eraill.*

### Mathau o gyngor

3.8 Ail a thrydydd amcan yr astudiaeth hon yw dadgyfuno’r amcangyfrifon yn ôl yr angen am wahanol fathau o gyngor (gwybodaeth, cymorth cyffredinol, a chymorth arbenigol). Mae’r Fframwaith Sicrhau Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor ar gyfer Cymru (Llywodraeth Cymru 2016c) yn datgan bod bodolaeth yr ystod hon o fathau o gyngor yn bwysig er mwyn sicrhau bod pobl yn cael mynediad at y cymorth cywir ar

yr adeg iawn. Mae'r diffiniadau o'r mathau gwahanol o gyngor a roddir isod yn seiliedig ar y rhai a roddir yn y Fframwaith[5].

**Darparu gwybodaeth**

3.9 Mae cleientiaid yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wybod rhagor ac i wneud mwy am eu sefyllfa. Gall gynnwys rhoi gwybodaeth am bolisïau, hawliau ac arferion, yn ogystal â rhoi gwybod am wasanaethau ac asiantaethau lleol a chenedlaethol a allai gynnig cymorth pellach i'r cleient. Y cleient sydd â'r cyfrifoldeb am unrhyw gamau pellach.

*Enghraifft*

Mae cleient yn anfon neges e-bost at ymgynghorydd yn gofyn am wybodaeth am wahaniaethu yn ystod beichiogrwydd. Mae'r ymgynghorydd yn ateb ac yn rhoi dolenni i wefannau perthnasol a dibynadwy.

**Cymorth cyffredinol**

3.10 Mae problem y cleient wedi'i dadansoddi, ac unrhyw faterion cyfreithiol cysylltiedig wedi'u nodi; mae opsiynau a deddfwriaethau perthnasol yn cael eu hystyried gan gyfeirio at amgylchiadau penodol y cleient. Gall hyn gynnwys nodi goblygiadau a chanlyniadau gweithredu, a rhoi cyngor ar y camau sydd angen eu cymryd i weithredu. Gellid rhoi'r cyngor ar fwy nag un achlysur ar gyfer yr un broblem.

*Enghraifft*

Mae cleient wedi penderfynu mynychu Gwasanaeth Digartrefedd yr Awdurdod Lleol ar ôl derbyn rhybudd Adran 21 gan ei landlord, ond mae'n chwilio am gyngor annibynnol yn gyntaf. Mae'r ymgynghorydd yn esbonio hawliau cyfreithiol y cleient a dyletswyddau cyfreithiol y cyngor i roi cymorth. Mae'r ymgynghorydd hefyd yn esbonio'r prosesau a chanlyniadau tebygol gwahanol senarios, yn dibynnu ar benderfyniad y cyngor. Er enghraifft, os bydd y cyngor yn derbyn y ddyletswydd 'helpu i sicrhau llety', byddai'r ymgynghorydd yn esbonio sut y gallai'r cleient gael cymorth drwy gynllun bond. Mae'r ymgynghorydd hefyd yn amlinellu'r hawliau apelio a'r terfynau amser pe na bai'r cleient yn cytuno â phenderfyniad yr awdurdod lleol.

[5] Awgryma'r Fframwaith gategoreiddio mwy cymhleth ar fathau o gyngor na'r hyn a ddefnyddir yn yr astudiaeth hon, gan fod â phum categori gwahanol. Serch hynny, mae'r categoreiddio a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yn agos at rai'r Fframwaith.

3.11 Gall cymorth cyffredinol hefyd gynnwys gwaith achos lle y cymerir camau ar ran y cleient i symud yr achos ymlaen. Gallai hyn gynnwys trafod ar ran y cleient gyda thrydydd parti dros y ffôn, drwy lythyr neu wyneb-yn-wyneb. Bydd yn cynnwys y darparwr cyngor yn bod yn gyfrifol am waith dilynol.

*Enghraifft*

Gwrthodwyd y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) i gleient ac mae'n dymuno apelio. Gall y gweithgareddau canlynol ddigwydd trwy gyswllt ar sawl ffurf gyda'r cleient. Mae'r ymgynghorydd yn ysgrifennu at feddyg y cleient yn gofyn am dystiolaeth feddygol i gefnogi apêl y cleient. Mae'r ymgynghorydd yn llunio cyflwyniad ac yn ei anfon at yr Adran Gwaith a Phensiynau ar ran y cleient. Mae'r ymgynghorydd yn egluro i'r cleient beth fydd yn digwydd yn y gwrandawiad apêl.

**Cyngor arbenigol**

3.12 Mae hyn yn ymwneud â chyngor lle mae angen gwybodaeth fanwl iawn am faes yn y gyfraith a chyfraith achosion. Mae hyn fel arfer yn golygu fod y cyngor yn cael ei roi gan ymgynghorwyr sydd â'r dyfnder gwybodaeth ac arbenigedd cyfreithiol angenrheidiol i gynrychioli cleientiaid drwy'r llysoedd neu'r tribiwnlys.

*Enghraifft*

Mae'r cleient yn mynd ag achos o ddiswyddo annheg gerbron Tribiwnlys Cyflogaeth ar ôl cael ei ddiswyddo oherwydd anghydfod dros wyliau. Mae'r ymgynghorydd, wrth weithredu fel cynrychiolydd y cleient, yn dadansoddi ymateb ffurfiol y cyflogwr ac yn gohebu â'r cyflogwr, y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS), a'r tribiwnlys ar ran y cleient. Bydd yr ymgynghorydd yn trafod setliad derbyniol i'r cleient neu'n paratoi'r cleient at y gwrandawiad tribiwnlys gan ei gynrychioli ynddo.

**Cyngor ataliol**

3.13 Er y gellir ond ymdrin â rhai problemau yn adweithiol ar ôl iddynt ddigwydd, gellir lliniaru problemau eraill i ryw raddau (os nad eu hosgoi yn gyfan gwbl), drwy gyngor ataliol wedi'i dargedu.


*Enghraifft*

Mae cleient yn rhagweld gostyngiad mewn incwm ac yn pryderu am dalu am eu hymrwymiadau. Mae ymgynghorydd yn rhoi cynllunydd creu cyllideb i'r cleient ac yn trafod ffyrdd o wneud y mwyaf o'r incwm a blaenoriaethu gwariant, gan esbonio'r gwahanol fathau o ddyledion, rhai â blaenoriaeth iddynt a rhai heb flaenoriaeth.

3.14 Ymarferwyr medrus sydd orau am farnu'n gywir y ffurf cyngor fwyaf priodol i'w roi, a hynny ar sail achos-wrth-achos, a thrwy ddeall y broblem yn dda a'r unigolyn sy'n dioddef y broblem honno. Nid yw'r dull a ddefnyddir gan yr astudiaeth hon yn cyrraedd y lefel honno o gynildeb ac felly dylid trin y ffigyrau canlyniadol fel canllaw yn unig. Defnyddiwyd dull sy'n seiliedig ar broblemau, ac yna mae ymarferwyr wedi dosbarthu pob un o'r 104 o broblemau penodol yn ôl y math(au) o gyngor a fyddai'n debygol o fod yn berthnasol. Yn seiliedig ar ddadansoddi nifer cymharol yr achosion o bob un o'r mathau penodol o broblemau y mae'r chwe chategori yn gysylltiedig â hwy (gan ddefnyddio data o'r Arolwg Panel Cyfiawnder Cymdeithasol a Sifil), gellir amcangyfrif yr anghenion cyngor ar gyfer pob un o'r chwe chategori.

3.15 Mae darparu gwybodaeth yn briodol i bob problem draddodadwy, ac mae'r siart isod felly yn dangos lefelau anghenion uchel iawn ar draws yr holl gategorïau. Fodd bynnag, mae anghenion cymorth yn amrywio rhwng y gwahanol gategorïau problemau. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd angen cyngor mwy ataliol ar gyfer problemau dyledion nag ar gyfer problemau tai a chymdogion, er bod problemau tai a chymdogion ar y cyfan yn fwy cyffredin. Yn yr un modd, mae cyngor arbenigol yn anghymesur o bwysig ar gyfer problemau a all gynnwys gwahaniaethu, er y gallai cyngor ataliol fod â mwy o rôl wrth frwydro yn erbyn problemau defnyddwyr/cwsmeriaid a chyllid.

Ffigwr 3.1: Yr angen amcangyfrifedig am wahanol fathau o gyngor ar broblemau traddodadwy yng Nghymru mewn cyfnod o 18 mis



3.16 Gan y gellir mynd i'r afael â phroblemau drwy fwy nag un math o gyngor, mae'r ffigyrau a gyflwynir uchod yn llawer uwch na chyfanswm nifer y problemau traddodadwy amcangyfrifedig. Y casgliad o hyn yw nad yw problemau o reidrwydd angen cael pob math o gyngor i'r lefelau a ddangosir yn y tabl. Er bod yr union berthynas rhwng gwahanol fathau o gyngor yn aneglur, disgwylir y byddai buddsoddi, dros amser, mewn gwybodaeth a chyngor ataliol, hyd at uchafswm yr hyn a awgrymir gan y tabl, yn lleihau'r angen am gyngor cyffredinol neu arbenigol o'r cyfansymiau a ddangosir yn y tabl. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad hwn yn gwneud unrhyw argymhellion ynghylch y cymysgedd gorau posibl o wahanol fathau o ddarpariaeth cyngor.

**Yr angen amcangyfrifedig am gyngor arbenigol**

3.17 Mae'r angen amcangyfrifedig am gyngor arbenigol wedi'i ddangos yn y siart isod ar gyfer pob awdurdod lleol. Er enghraifft, dengys y siart yr amcangyfrifir fod gan drigolion Powys 7,920 o broblemau dyledion a fyddai'n elwa o gyngor arbenigol mewn cyfnod o 18 mis.

Tabl 3.4: Yr angen amcangyfrifedig am gyngor arbenigol ar broblemau traddodadwy mewn cyfnod o 18 mis, yn ôl awdurdod lleol

| Awdurdod lleol | Budd-daliadau | Cyflogaeth | Tai a Chymdogion | Dyled | Defnyddwyr a Chyllid | Gwahaniaethu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 3119 | 4068 | 4082 | 4034 | 498 | 923 |
| Gwynedd | 5927 | 7539 | 12356 | 8182 | 763 | 1950 |
| Conwy | 5305 | 6135 | 8520 | 7182 | 756 | 1579 |
| Sir Ddinbych | 3964 | 4968 | 4961 | 5293 | 572 | 1144 |
| Sir y Fflint | 6721 | 8913 | 11749 | 11544 | 921 | 2235 |
| Wrecsam | 6676 | 7643 | 13420 | 13012 | 933 | 2264 |
| Powys | 4844 | 6046 | 8785 | 7920 | 601 | 1570 |
| Ceredigion | 2483 | 3159 | 6331 | 4107 | 330 | 899 |
| Sir Benfro | 4780 | 5477 | 7212 | 8836 | 692 | 1493 |
| Sir Gaerfyrddin | 7237 | 8929 | 10364 | 12394 | 1167 | 2264 |
| Abertawe | 12143 | 12343 | 24226 | 14767 | 1456 | 3589 |
| Castell-nedd Port Talbot | 6471 | 7795 | 9277 | 10285 | 921 | 1961 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 7441 | 8080 | 10758 | 11979 | 987 | 2183 |
| Bro Morgannwg | 5297 | 7102 | 7363 | 6271 | 483 | 1536 |
| Caerdydd | 14814 | 17999 | 29857 | 16438 | 1502 | 4543 |
| Rhondda Cynon Taf | 12172 | 12881 | 15306 | 17141 | 1175 | 3282 |
| Merthyr Tudful | 3082 | 2861 | 3161 | 4602 | 398 | 787 |
| Caerffili | 9117 | 8695 | 12572 | 13904 | 1097 | 2500 |
| Blaenau Gwent | 3298 | 3653 | 5841 | 5840 | 430 | 1044 |
| Torfaen | 5031 | 5354 | 7365 | 8707 | 779 | 1509 |
| Sir Fynwy | 3363 | 4526 | 8459 | 6670 | 442 | 1278 |
| Casnewydd | 7066 | 8592 | 11603 | 9380 | 739 | 2110 |

*Mae'r graddiant lliw yn berthnasol i'r tabl yn ei gyfanrwydd. Mae coch yn dynodi lefel angen cymharol uchel, tra bod gwyrdd yn dynodi cyfradd gymharol isel. Mae'r ffigyrau hyn yn amcangyfrifon ac felly gallant fod yn agored i anghywirdebau. Gall amgylchiadau lleol cymhleth gael effaith fawr ar broblemau traddodadwy a gall amcangyfrifon ar sail model fod yn fwy cywir i rai ardaloedd nag i eraill.*

**Yr angen amcangyfrifedig am gyngor ataliol**

3.18 Mae'r tabl isod yn dangos yr angen am gyngor ataliol ar gyfer pob awdurdod lleol ar draws y gwahanol gategorïau problemau. Er enghraifft, mae'r siart yn dangos, mewn cyfnod o 18 mis, y disgwylir i breswylwyr yng Nghasnewydd gael 6,885 o broblemau gyda budd-daliadau lles y gellid eu cefnogi (ac efallai eu hosgoi) drwy gyngor ataliol.

Tabl 3.5: Yr angen amcangyfrifedig am gyngor ataliol ar broblemau traddodadwy mewn cyfnod o 18 mis, yn ôl awdurdod lleol

| Awdurdod lleol | Budd-daliadau | Cyflogaeth | Tai a Chymdogion | Dyled | Defnyddwyr a Chyllid | Gwahaniaethu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 3039 | 1845 | 3488 | 3937 | 1345 | 498 |
| Gwynedd | 5775 | 3420 | 10559 | 7985 | 2061 | 1053 |
| Conwy | 5169 | 2783 | 7280 | 7009 | 2043 | 852 |
| Sir Ddinbych | 3862 | 2254 | 4239 | 5165 | 1545 | 618 |
| Sir y Fflint | 6549 | 4043 | 10040 | 11266 | 2490 | 1207 |
| Wrecsam | 6504 | 3467 | 11468 | 12698 | 2523 | 1223 |
| Powys | 4720 | 2742 | 7507 | 7729 | 1625 | 848 |
| Ceredigion | 2419 | 1433 | 5410 | 4008 | 893 | 486 |
| Sir Benfro | 4657 | 2484 | 6163 | 8623 | 1870 | 806 |
| Sir Gaerfyrddin | 7052 | 4050 | 8857 | 12095 | 3155 | 1222 |
| Abertawe | 11831 | 5599 | 20702 | 14412 | 3935 | 1938 |
| Castell-nedd Port Talbot | 6305 | 3536 | 7928 | 10037 | 2489 | 1059 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 7250 | 3665 | 9193 | 11690 | 2667 | 1179 |
| Bro Morgannwg | 5161 | 3222 | 6292 | 6120 | 1304 | 829 |
| Caerdydd | 14434 | 8165 | 25514 | 16042 | 4059 | 2453 |
| Rhondda Cynon Taf | 11860 | 5843 | 13079 | 16728 | 3174 | 1772 |
| Merthyr Tudful | 3003 | 1298 | 2702 | 4491 | 1075 | 425 |
| Caerffili | 8883 | 3944 | 10743 | 13569 | 2964 | 1350 |
| Blaenau Gwent | 3214 | 1657 | 4991 | 5699 | 1162 | 564 |
| Torfaen | 4902 | 2429 | 6294 | 8498 | 2105 | 815 |
| Sir Fynwy | 3277 | 2053 | 7228 | 6509 | 1196 | 690 |
| Casnewydd | 6885 | 3897 | 9916 | 9154 | 1998 | 1139 |

*Mae'r graddiant lliw yn berthnasol i'r tabl yn ei gyfanrwydd. Mae coch yn dynodi lefel angen cymharol uchel, tra bod gwyrdd yn dynodi cyfradd gymharol isel. Mae'r ffigyrau hyn yn amcangyfrifon ac felly gallant fod yn agored i anghywirdebau. Gall amgylchiadau lleol cymhleth gael effaith fawr ar broblemau traddodadwy a gall amcangyfrifon ar sail model fod yn fwy cywir i rai ardaloedd nag i eraill.*

# 4. Casgliadau

4.1 Mae’r angen am gyngor ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru wedi’i amcangyfrif drwy fodel o nifer yr achosion o wahanol fathau o broblemau traddodadwy. Caiff y modelau eu gosod i gyd-fynd â data o’r Arolwg Panel Cyfiawnder Cymdeithasol a Sifil (Cyfadran y Gyfraith, Coleg Prifysgol Llundain 2015), a’r Arolwg hwnnw yn cynnwys atebion wedi’u hysgogi (gan ddefnyddio cardiau dangos) i gwestiynau ynghylch a yw ymatebwyr yr arolwg wedi dioddef gwahanol fathau o broblemau traddodadwy. Defnyddir y cwestiynau hyn i godi’r newidynnau dibynnol ar gyfer y modelau. Mae’r newidynnau annibynnol yn deillio o ddata demograffig wedi’i gynhyrchu gan yr Arolwg Panel Cyfiawnder Cymdeithasol a Sifil, gyda pheth data ychwanegol yn deillio o ffynonellau’r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). Mae’r dewis o newidyn annibynnol wedi’i lywio gan astudiaethau blaenorol, eu pŵer rhagfynegol, ac arwyddocâd ystadegol cysylltiadau ar ôl eu profi. Mae’r modelau terfynol yn fodelau atchweliad llinol sydd wedi’u cyffredinoli ar lefel awdurdodau lleol, ond maent yn cynnwys ffactorau risg i unigolyn sy’n deillio o rownd flaenorol o fodelu logistaidd ar lefel yr unigolyn. Gwnaed dadansoddiad o werthoedd a ragwelir a gwerthoedd a welwyd yn seiliedig ar y data hwn o 2010, a hynny er mwyn dangos gallu’r modelau i ragweld yn gywir nifer yr achosion o broblemau traddodadwy.

4.2 Nid oes digon o samplau ledled Cymru yn yr Arolwg Cyfiawnder Cymdeithasol a Sifil, ac nid yw ychwaith yn ddiweddar ac nid oes disgwyl iddo gael ei gynnal yn ddigon aml, i ddarparu amcangyfrifon credadwy cyson am nifer yr achosion cyfredol o broblemau traddodadwy. O’r herwydd, caiff y cyfernodau atchweliad a gafwyd o’r broses fodelu eu cymhwyso i ail set ddata er mwyn gwneud mwy o amcangyfrifon cyfredol ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae’r ail set ddata hon yn bennaf yn cynnwys newidynnau o Arolwg Cenedlaethol Cymru sy’n fwy diweddar ac yn cael ei gynnal yn amlach (Llywodraeth Cymru 2015c) ac sydd wedi’i ategu gan ddata ONS sydd ar gael yn rhwydd. Nid yw’r ail set ddata hon ei hun yn cynnwys unrhyw wybodaeth am broblemau traddodadwy ond, trwy ei chynllun, mae’n cynnwys pob un o’r newidynnau annibynnol a ddefnyddir yn y modelau atchweliad. Mae hyn yn rhoi modd cyfrifo amcangyfrifon o nifer yr achosion (h.y. cyfradd y problemau traddodadwy yn y boblogaeth) ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru

drwy gymhwyso'r[6] cyfernodau a gynhyrchwyd yn ystod y broses modelu i newidynnau yn yr ail set ddata.

4.3 Yna caiff amcangyfrifon nifer yr achosion o broblemau traddodadwy eu cymhwyso i amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer pob awdurdod lleol i roi amcangyfrifon o gyfanswm nifer y gwahanol broblemau ym mhob ardal. Gwnaed rhai addasiadau bychain, disgynnol hefyd i gyfrif am y posibilrwydd o gyfrif dwbl rhwng categorïau'r problemau traddodadwy (gweler y Fethodoleg i gael manylion). Yn olaf, caiff niferoedd amcangyfrifedig y problemau traddodadwy ym mhob categori eu dadgyfuno yn ôl y *math* o gyngor a allai fod yn berthnasol i'r problemau hyn. Wrth wneud hynny, gellir gwneud amcangyfrifon ynghylch faint o gyngor arbenigol ac ataliol sydd eu hangen i fynd i'r afael yn llawn â'r problemau traddodadwy. Mae'r dadgyfuno hwn yn seiliedig ar anghenion nodweddiadol cael cyngor o'r cymysgedd o broblemau ym mhob un o chwe chategori'r problemau traddodadwy, yn ôl awgrymiadau ymarferwyr profiadol.

4.4 Mae'r canfyddiadau yn dangos dosbarthiad gwahanol fathau o broblemau traddodadwy ledled Cymru. Mewn termau absoliwt, mae niferoedd uchaf y problemau i'w gweld mewn canolfannau poblog fel Caerdydd ac Abertawe, ac yna Rhondda Cynon Taf. Fodd bynnag, nid y rhain o reidrwydd yw'r ardaloedd sydd â'r cyfraddau uchaf o ran nifer achosion. Er enghraifft, mae Wrecsam yn dioddef cyfraddau arbennig o uchel o broblemau tai a chymdogion a phroblemau dyled, tra bod gan Torfaen gyfraddau uchel o broblemau yn ymwneud â budd-daliadau, cyflogaeth, dyled, a defnyddwyr a chyllid.

4.5 Mae'r canfyddiadau hefyd yn rhoi syniad ymhle y mae'r angen mwyaf am gyngor ataliol ac arbenigol. Mewn termau cymharol, mae cyngor arbenigol yn fwyaf pwysig ar gyfer problemau dyled, cyflogaeth a gwahaniaethu, ond mewn termau absoliwt, mae galw mawr hefyd am gyngor arbenigol i broblemau tai a chymdogion, yn enwedig yng Nghaerdydd ac Abertawe. Mae cyngor ataliol yn fwyaf pwysig i broblemau defnyddwyr/cwsmeriaid a chyllid, problemau dyledion a phroblemau budd-daliadau lles. Mewn termau absoliwt, fodd bynnag, tebyg yw lefelau'r galw am gyngor ataliol ar gyfer problemau dyled a phroblemau tai a chymdogion. Mae'r angen am gyngor ataliol ar broblemau tai a chymdogion i'w gael gan mwyaf yn arbennig yng Nghaerdydd ac Abertawe, er bod yr angen am gyngor ataliol ar ddyled

[6] Drwy ddefnyddio'r fformiwla atchweliad

wedi'i ledaenu'n fwy cyfartal ar draws ardaloedd eraill, megis Rhondda Cynon Taf, Caerffili, Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Gaerfyrddin, Wrecsam, a Sir y Fflint.

4.6 I gloi, mae'r adroddiad hwn yn dangos methodoleg a ddatblygwyd yn annibynnol ynghyd â chasgliad o amcangyfrifon ar y lefelau angenrheidiol o gyngor ar broblemau traddodadwy ledled Cymru. Fodd bynnag, dylid trin y ffigyrau a gyflwynir fel *amcangyfrifon* yn unig ac mae'n bosibl na fydd y modelau ystadegol y mae'r amcangyfrifon yn seiliedig arnynt wedi cyfrif am ffactorau lleol cymhleth. Er y disgwylir i'r ymchwil hwn fod yn ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol i'r Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru, darparwyr gwasanaethau lleol a chyllidwyr eraill wrth gynllunio eu hadnoddau, dylid ei osod yn briodol o fewn trafodaeth polisi ehangach sy'n ystyried difrifoldeb posibl problemau, eu cydgysylltiad, a dealltwriaethau lleol.

## Atodiad 1: Rhestr Cyfeiriadau


Archwilydd Cyffredinol Cymru (2015) *Rheoli Effeithiau Diwygiadau Lles ar Denantiaid Cymdeithasol yng Nghymru*. Swyddfa Archwilio Cymru. https://www.wao.gov.uk/system/files/publications/welfare-reform-report-welsh.pdf

Baker, B & Barrow, S. (2006) *Proxy Models of Legal Need: Can They Contribute to Equity of Access to Justice?* Cambridge University Press doi:10.1017/S0047279405009529

Baker, D.; Barrow, S; SeeIT Ltd. (2004) *Assessing Need for Legal Advice in Scotland* http://www.gov.scot/Publications/2004/05/19407/37780

Beatty, C. a Fothergill, S. (2013) *Hitting the Poorest Places Hardest* http://www4.shu.ac.uk/research/cresr/sites/shu.ac.uk/files/hitting-poorest-places-hardest_0.pdf

Bevan, G, Davis G a Pearce J (1999) Piloting a quasi-market for family mediation amongst clients eligible for legal aid, *Civil Justice Quarterly*, 239:239-241.

Blacksell, M., Economides, K. a Watkins, C. (1991) *Justice Outside the City: Access to Legal Services in Rural Britain.* Essex: Longmans

Carole Miller Research (1997) *Civil Disputes in Scotland*. Cyngor Defnyddwyr yr Alban; Glasgow

Coleg Prifysgol Llundain. Cyfadran y Gyfraith. (2015). *English and Welsh Civil and Social Justice Panel Survey: Waves 1-2, 2010-2012*. [casglu data]. Gwasanaeth Data'r Deyrnas Unedig. SN: 7643, http://doi.org/10.5255/UKDA-SN-7643-1

Cyngor ar Bopeth (2004a) *Still wish you were here* https://www.citizensadvice.org.uk/about-us/policy/policy-research-topics/work-policy-research-surveys-and-consultation-responses/work-policy-research/still-wish-you-were-here

Cyngor ar Bopeth (2004b) *Nowhere to turn* https://www.citizensadvice.org.uk/about-us/policy/policy-research-topics/work-policy-research-surveys-and-consultation-responses/work-policy-research/nowhere-to-turn

Cyngor ar Bopeth (2006) *Single room rent - the case for abolition* http://www.crisis.org.uk/data/files/publications/SingleRoomRent_campaign_Oct06%5B1%5D.pdf

Cyngor ar Bopeth (2010) *Child benefit delays: The impact on CAB clients* https://www.citizensadvice.org.uk/about-us/policy/policy-research-topics/welfare-policy-research-surveys-and-consultation-responses/welfare-policy-research/child-benefit-delays-the-impact-on-cab-clients/

Cyngor ar Bopeth (2011) *Desperate times, desperate consumers* https://www.citizensadvice.org.uk/about-us/policy/policy-research-topics/consumer-policy-research/consumer-policy-research/desperate-times-desperate-consumers/

Cyngor ar Bopeth (2012) *Right First Time? An indicative study of the accuracy of ESA work capability assessment report* https://www.citizensadvice.org.uk/about-us/policy/policy-research-topics/welfare-policy-research-surveys-and-consultation-responses/welfare-policy-research/right-first-time/

Cyngor ar Bopeth (2014a) *Pop goes the payslip - Making universal credit work for families* https://www.citizensadvice.org.uk/about-us/campaigns/current_campaigns/recent-campaigns/universal-credit

Cyngor ar Bopeth (2014b) *Tackling Consumer Vulnerability* https://www.citizensadvice.org.uk/about-us/policy/policy-research-topics/consumer-policy-research/consumer-policy-research/tackling-consumer-vulnerability/

Cyngor ar Bopeth (2014c) *Welfare reform and essential bills: Mitigating the impact on people's ability to pay* https://www.citizensadvice.org.uk/about-us/policy/policy-research-topics/welfare-policy-research-surveys-and-consultation-responses/welfare-policy-research/welfare-reform-and-essential-bills-mitigating-the-impact-on-peoples-ability-to-pay/

Cyngor ar Bopeth (2015a) *Consumer Challenges* https://www.citizensadvice.org.uk/about-us/policy/policy-research-topics/consumer-policy-research/consumer-policy-research/consumer-challenges-2015

Cyngor ar Bopeth (2015b) *Dispatches from the front lines of the housing crisis* https://www.citizensadvice.org.uk/about-us/policy/policy-research-topics/housing-policy-research/dispatches-from-the-front-lines-of-the-housing-crisis/

Cyngor ar Bopeth (2016a) *Working with a health condition or disability* https://www.citizensadvice.org.uk/about-us/policy/policy-research-topics/work-policy-research-surveys-and-consultation-responses/work-policy-research/working-with-a-health-condition-or-disability

Cyngor ar Bopeth (2016b) *Sharp practice at work: maternity rights* https://www.citizensadvice.org.uk/about-us/policy/policy-research-topics/work-policy-

research-surveys-and-consultation-responses/work-policy-research/sharp-practice-at-work-maternity-rights

Cyngor ar Bopeth (2016c) *Sharp practice at work: agency workers* https://www.citizensadvice.org.uk/about-us/policy/policy-research-topics/work-policy-research-surveys-and-consultation-responses/work-policy-research/sharp-practice-at-work-agency-workers

Cyngor ar Bopeth (2016d) *Second Choice Jobs: The real impact of the changing world of work - notes from the frontline* https://www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/about-us/policy/policy-research-topics/work-policy-research-surveys-and-consultation-responses/work-policy-research/second-choice-jobs

Cyngor ar Bopeth (2016e) *Going for broke: how self-employed move in and out of debt* https://www.citizensadvice.org.uk/about-us/policy/policy-research-topics/work-policy-research-surveys-and-consultation-responses/work-policy-research/going-for-broke-how-self-employed-people-move-in-and-out-of-debt

Cyngor ar Bopeth*;* yr Ymddiriedolaeth Cyngor Ariannol a Shelter (2009) *Mortgage and secured loan arrears: Adviser and Borrower Surveys* http://england.shelter.org.uk/professional_resources/policy_and_research/policy_library/policy_library_folder/mortgage_and_secured_loan_arrears_-_adviser_and_borrower_surveys

Cyngor ar Bopeth / New Policy Institute (2015) *Paying a high price for a faulty product* https://www.citizensadvice.org.uk/Global/Public/Campaigns/sands/Paying-a-high-price-for-a-faulty-product.pdf

Clark, C. a Corstvet, E. (1938), *"The lawyer and the public: an A.A.L.S. survey*," yn 47 Yale Law Journal, tt.1272–93

Coumarelos, C.et al (2012) *Legal Australia Wide Survey: Legal Need in Australia. Sydney:Law and Justice Foundation of New South Wales*

Currie,A. (2009) *"The Legal Problems of Everyday Life,*" yn Sandefur, R.L. (gol.) Access to Justice, Bingley: Emerald

Eldred, C.A. a Reese, R.W. (1994) Legal Needs Among Moderate=Income Households: *Findings from the Comprehensive Legal Needs Study*, Chicago: ABA

Franklyn, F., Budd, T., Verrill, R. ac Willoughby, M. (2017) *Findings from the Legal Problem and Resolution Survey,* 2014-15 Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder http://www.justice.gov.uk/publications/research-and-analysis/moj

Genn, H. (1999) *Paths to Justice: What People Do and Think About Going to Law*, Rhydychen: Hart

Genn, H. a Paterson, A. (2001) *Paths to Justice Scotland: What People in Scotland Think and Do About Going to Law*, Rhydychen: Hart

Gramatikov, M. (2008) Multiple Justicable Problems in Bulgaria. *Tilburg University Legal Studies Working Paper No. 16/2008; TISCO Civil Law and Conflict Resolution Systems Working Paper No. 08/2008*. Ar gael yn SSRN: https://ssrn.com/abstract=1308604 neu http://dx.doi.org/10.2139/ssrn.1308604

Henderson, C. R. "*Estimation of Variance and Covariance Components.*" Biometrics, cyfrol 9, rhifyn 2, 1953, tt. 226–252., www.jstor.org/stable/3001853.

IFF (2012) *User needs from debt advice: Individual and stakeholder views*. Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol

Law, J.; Assenti, S.; Barton, G.; Kirsty McKissock Market Research UK Ltd; Baker, D.; Barrow, S; SeeIT Ltd. (2004) *Assessing Need for Legal Advice in Scotland* http://www.gov.scot/Publications/2004/05/19407/37780

Lewis, P. (1973) "*Unmet Legal Needs,*" yn Morris, P., White, R. a Lewis, P. (goln) Social Needs and Legal Action. Rhydychen: Martin Robertson

Llywodraeth Cymru (2012) *Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi 2012-2016* http://gov.wales/topics/people-and-communities/tackling-poverty/taking-forward-tackling-poverty-action-plan

Llywodraeth Cymru (2013) *Adolygiad o Wasanaethau Cynghori: Adroddiad Ymchwil Terfynol* http://gov.wales/statistics-and-research/advice-services-review/?lang=cy

Llywodraeth Cymru (2015a) *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?lang=cy

Llywodraeth Cymru. (2015b). *Arolwg Cenedlaethol Cymru*, 2014-2015. [casglu data]. Gwasanaeth Data'r Deyrnas Unedig. SN: 7767, http://doi.org/10.5255/UKDA-SN-7767-2

Llywodraeth Cymru (2015c) *Adroddiad Technegol Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15*

Llywodraeth Cymru (2016a) *Cynllun Gweithredu o ran Gwybodaeth a Chyngor* http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/advice-services/information-and-advice-action-plan/?lang=cy

Llywodraeth Cymru (2016b) *Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion Cydraddoldeb 2016-2020* http://gov.wales/topics/people-and-communities/equality-diversity/equality-objectives/?lang=cy

Llywodraeth Cymru (2016c) *Y Fframwaith Sicrhau Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor (Cymru)* http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/advice-services/information-advice-quality-framework/?lang=cy

Maxwell, G.M.,Smith, C., Shepherd, P.J. a Morris, A. (1999) *Meeting Legal Service Needs*. Wellington: Victoria University of Wellington

Michael Bell Associates; *The Advice Needs Assessment & Resource Allocation Kit developed*

Nelder, John; Wedderburn, Robert (1972). Generalized Linear Models. *Journal of the Royal Statistical Society.* Series A (General). Blackwell Publishing. 135 (3): 370–384. doi:10.2307/2344614

Palmer, C. a Monaghan, C. (2001), *The Public Perspective on Accessing Legal Advice and Information: Key Findings from a Microcosm Study*, Caeredin: Gweithrediaeth yr Alban

Pippa Lan / Cyngor ar Bopeth (2015) *Renting in the recovery - how many private renters could get caught up in repossessions as interest rates rise?* https://www.citizensadvice.org.uk/about-us/policy/policy-research-topics/housing-policy-research/renting-in-the-recovery/?lang=cy

Pleasence, P. (2006) *Causes of Action: Civil Law and Social Justice,* Norwich: TSO

Pleasence, P., Balmer, N.,Patel, A. a Denvir, C. (2010) *Report of the 2006-9 English and Welsh Civil and Social Justice Survey*, Llundain: Y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol

Pleasence, P., Balmer, N.J., Patel, A., Cleary, A., Huskinson, T. a Cotton, T. (2011) *Justice in England and Wales 2010*: *Report of the First Wave of the English and Welsh Civil and Social Justice Panel Survey*, Llundain: Y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol

Pleasence, P. Balmer, N. & Sandefur, R. (2013) Paths to Justice: *A Past, Present and Future Roadmap.* Centre for Empirical Legal Studies / Ymddiriedolaeth Nuffield, Llundain

Pleasence, P, Buck, A, Goriely, T, Taylor J, Perkins, H a Quirk, H (2001) *Local Legal Need,* London: Y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, Papur Ymchwil LSRC Rhif 7

Pleasence, P.; Buck, A.; Balmer, N.J. et al (2002). *Summary of findings of the first LSRC Periodic Survey of Justiciable Problems*. Llundain: Y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol.

Pleasence, P. a Balmer, N.J. (2010) *Civil Justice in England and Wales: Report of the 2006-9 English and Welsh Civil and Social Justice Survey*, Llundain: Y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol

Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol / CACI (2016) *A Picture of Over-indebtedness* https://www.moneyadviceservice.org.uk/en/corporate/a-picture-of-over-indebtedness